

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol  
Social research

Rhif/Number: 07/2013



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

## Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg



# **Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg**

## **Catrin Redknap Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru**

Eiddo'r ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru

I gael gwybodaeth bellach cysyllter â:

Richard Thurston

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 5720

E-bost: [catrin.redknap@cymru.gsi.gov.uk](mailto:catrin.redknap@cymru.gsi.gov.uk)

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013

ISBN 978-0-7504-8743-6

© Crown Copyright 2013

## Tabl Cynnwys

|  |           |
|--|-----------|
| Rhagair.....   | 2         |
| <b>Rhan I: Y Cyd-destun Polisi, y Fframwaith Cysyniadol a'r her o werthuso gweithgareddau cynllunio ieithyddol .....</b> | <b>3</b>  |
| 1 Y Cyd-destun Polisi.....   | 3         |
| 2 Datblygu'r Fframwaith Gwerthuso - rhai ystyriaethau.....   | 4         |
| 3 Gweithio mewn Partneriaeth .....   | 8         |
| 4 Dangosyddion .....   | 10        |
| 5 Fframwaith Cysyniadol Cynllunio Ieithyddol .....   | 10        |
| 6 Heriau a Risgiau Methodolegol .....  | 12        |
| 7 Dulliau Ymchwil.....   | 14        |
| 8 Yr amserlen a'r blaenoriaethau .....   | 17        |
| <b>Rhan II: Modelau Rhesymeg, Cwestiynau, Dulliau ac Offerynnau Ymchwil .....</b>  | <b>19</b> |
| 9 Model Rhesymeg Trosfwaol Strategaeth y Gymraeg (Fframwaith y Strategaeth gyfan).....                                   | 20        |
| 10 Maes Strategol 1: Y Teulu .....   | 25        |
| 11 Maes Strategol 2: Plant a phobl ifanc .....   | 32        |
| 12 Maes Strategol 3: Y Gymuned.....  | 38        |
| 13 Maes Strategol 4: Y Gweithle .....  | 45        |
| 14 Maes Strategol 5: Gwasanaethau Cymraeg.....   | 50        |
| 15 Maes Strategol 6: Seilwaith .....   | 55        |
| <b>Atodiad 1 .....</b>   | <b>63</b> |
| <b>Llyfryddiaeth.....</b>  | <b>64</b> |

## Rhagair

Diben y Fframwaith hwn yw rhoi arweiniad ar werthuso Strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer y Gymraeg, sef *laith fyw: iaith byw*. Mae'n darparu sylfaen ar gyfer ymchwilio, casglu data a dadansoddi yn y dyfodol ac yn pennu rhesymeg ar gyfer hynny. Yn **Rhan I** amlinellir y cyd-destun polisi ar gyfer y Fframwaith Gwerthuso a'r fframwaith cysyniadol sy'n sail iddo. Hefyd, ystyrir yr heriau a'r goblygiadau o werthuso effaith gweithgareddau cynllunio ieithyddol. Yn **Rhan II** ceir cyfres o fodolau rhesymeg, sy'n cyfateb i bob un o'r chwe maes strategol yn Strategaeth y Gymraeg. Mae'r rhain yn dangos deinameg ymddygiadau ieithyddol. Maent hefyd yn sail i ddull systematig a chydlynol o asesu effeithiau a chanlyniadau, ac yn sail i ddatblygu'n fanylach y theori o newid sydd ymhlyg yn y Strategaeth. Dilynir pob model rhesymeg gan gyfres o gwestiynau ymchwil manylach y mae angen eu hystyried, ynghyd ag amlinelliad o'r dulliau a'r offerynnau ymchwil i'w hystyried ym mhob achos. Caiff y Fframwaith ei ategu gan y canllawiau gwerthuso a ddarperir yn *The Magenta Book* (Trysorlys EM 2011).

Er mai prif ddiben y Fframwaith yw helpu i ddatblygu dull cadarn o werthuso'r Strategaeth, y gobaith yw y bydd yr adroddiad hefyd yn llywio sut caiff y Strategaeth ei gweithredu a'i datblygu ymhellach.

Rhagwelir y bydd y Fframwaith yn ddefnyddiol i gyrrff eraill sydd â diddordeb yn y Strategaeth - naill ai fel asiantaethau darparu neu at ddibenion craffu - yn ogystal â Llywodraeth Cymru. Ni ddylai'r gwaith o werthuso'r Strategaeth fod yn fater i Lywodraeth Cymru'n unig ond dylid ei rannu gyda phartneriaid er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer yr iaith.

Gwahoddwyd sefydliadau sy'n derbyn cyllid grant gan Lywodraeth Cymru, a chyrrff eraill sy'n hybu ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, i fynegi barn ar ddrafftiau cynharach o'r Fframwaith rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2012. Felly, defnyddiwyd adborth amrywiaeth o bartneriaid i lunio'r fersiwn derfynol hon.

# Rhan I: Y Cyd-destun Polisi, y Fframwaith Cysyniadol a'r her o werthuso gweithgareddau cynllunio ieithyddol

## 1 Y Cyd-destun Polisi

Cyhoeddwyd Strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer y Gymraeg, sef *laith fyw: iaith byw*, ar 1 Mawrth 2012 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2012. Bydd yn parhau mewn grym tan ddiwedd mis Mawrth 2017. Mae'r Strategaeth yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i arwain o ran gwireddu'i gweledigaeth, sef 'gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru' (t.14). Mae dwy elfen graidd i wireddu'r weledigaeth: galluogi pobl i *gaffael* y Gymraeg, ac annog pobl i'w *defnyddio* (t.14).

Mae chwe Maes Strategol yn y Strategaeth:

- Y Teulu
- Plant a Phobl Ifanc
- Y Gymuned
- Y Gweithle
- Gwasanaethau Cymraeg
- Y Seilwaith

### 1.1 Yr Amcanion Polisi a'r Canlyniadau Arfaethedig

Nod hirdymor (neu 'Weledigaeth') y Strategaeth yw 'gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru' (t.14). Amcan Llywodraeth Cymru, fel y nododd yn ei Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2011-2016, yw cryfhau'r defnydd a wneir o'r Gymraeg fel rhan o fywyd bob dydd. Diffinnir yr amcan hwn fel a ganlyn:

- cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad yr iaith ac yn ei defnyddio
- rhagor o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- cynnydd yn hyder pobl a'u rhuglder yn yr iaith
- mwy o ymwybyddiaeth ymhlith pobl o werth y Gymraeg, fel rhan o'n treftadaeth genedlaethol a hefyd fel sgil defnyddiol mewn bywyd modern
- sefydlogi sefyllfa'r Gymraeg o fewn ein cymunedau
- lle amlwg i'r Gymraeg ar draws y cyfryngau digidol

### 1.2 Nodau ac Amcanion y Fframwaith Gwerthuso

O dan adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gofyn llunio adroddiad blynyddol ar weithrediad Strategaeth y Gymraeg. Yn ôl y Ddeddf: [Nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw]

*After each financial year the Welsh Ministers must publish a report of how the proposals set out in the Welsh language strategy were implemented in that*

*financial year and how effective their implementation has been in promoting and facilitating the use of the Welsh language.*

Yn ogystal, mae'r Strategaeth yn ymrwmo i 'ddatblygu fframwaith gwerthuso i gyd-fynd â'r strategaeth'. Bydd hwn yn cynnwys 'gwahanol ddulliau a ffynonellau data, a fydd yn cynnwys ymchwil a dadansoddiad pwrpasol' (tud. 22-23). Mae'r Strategaeth yn mynd rhagddi fel a ganlyn:

*Yn wyneb yr ymyriadau polisi amrywiol sydd dan sylw, bydd hi'n bwysig sicrhau dull gweithredu cyson a chymharol tuag at werthuso ar draws y strategaeth. Bydd y dull gweithredu ar y naill law yn ffurfiannol - er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu gydol y gweithredu - ac ar y llaw arall yn adolygol - er mwyn sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cofnodi mewn dull cadarn ac amserol.*

*Bydd y fframwaith gwerthuso yn:*

- dynodi sut bydd effeithiau'r strategaeth hon yn cael eu cofnodi ar wahanol lefelau (cyfranogwr unigol, prosiect/rhaglen ac yn lleol/genedlaethol)*
- diffinio ymhellach y dangosyddion mesuradwy sydd yn y strategaeth hon ynghylch effeithiau disgwylidig ac effeithiau posib y strategaeth, gan ddefnyddio data a gasglwyd yn genedlaethol ac yn lleol pryd bynnag y bo hynny'n bosib (bydd hyn yn cydweddu cymaint â phosib â systemau monitro perfformiad y partneriaid eu hunain)*
- dynodi bylchau yn yr wybodaeth/data sydd eisoes wedi'u casglu ac ystyried sut gellid canfod data priodol, gan ystyried ymarferoldeb a chost canfod gwybodaeth ychwanegol a'r budd y mae gwybodaeth o'r fath yn debygol o'i olygu*
- clustnodi rhaglen ar gyfer casglu, ymchwilio a dadansoddi data a fydd yn cael ei chyhoeddi gydol oes y strategaeth fel sail i'w datblygiad a'i hadolygiad parhaus - gan gynnwys ar gyfer yr adroddiad blynyddol ar weithrediad y strategaeth hon sy'n ofynnol o dan Adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. (tud. 22-23).*

## **2 Datblygu'r Fframwaith Gwerthuso - rhai ystyriaethau**


Mae'r Strategaeth yn gymhleth am sawl rheswm:

- cymhlethdod cynhenid y defnydd o iaith
- natur amlweddog cynllunio ieithyddol
- amrywiaeth yr asiantaethau sy'n gyfrifol am weithredu agweddau o'r polisi
- amrywiaeth yr anghenion a'r dyheadau y disgwylir i'r Strategaeth eu bodloni

Ffrwyth cyfuniad amrywiaeth eang o ffactorau yw ymddygiad ieithyddol ac agweddau tuag at yr iaith. Wrth i siaradwyr gaffael a datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg mae eu profiadau yn cael eu dylanwadu gan ffactorau fel addysg a throsglwyddo iaith, a

hefyd gan y cyfle a gânt i ddod yn fwy rhugl ac yn fwy hyderus drwy ddod i gysylltiad â'r Gymraeg mewn amryw o gyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol. Hefyd, mae angen ystyried effaith bosibl agweddau a ffactorau seicoieithyddol ar ymddygiad. Yn ei dro, gallai fod cysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol rhwng ymddygiad a chanfyddiadau o allu neu ruglder yn yr iaith, er enghraifft. Yn y Fframwaith Cysyniadol isod ceir amlinelliad o'r rhyngberthnasau hyn:

## 2.1 Strategaeth y Gymraeg 2012-17: Y Fframwaith Cysyniadol



Mae angen i Lywodraeth Cymru gael tystiolaeth ystyrion ynghylch pa mor effeithiol yw'r gwaith a wnaed yn sgil ei pholisi ar gyfer y Gymraeg neu oherwydd y polisi hwnnw. Mae angen iddi hefyd gael gwybod a yw'r polisi'n cael ei roi ar waith mor effeithlon â phosibl. Nod y Fframwaith Gwerthuso hwn yw bod yn sylfaen ar gyfer ymchwilio, casglu data a dadansoddi yn y dyfodol er mwyn gwerthuso'r Strategaeth, a phennu rhesymeg ar gyfer hynny. Cafodd ei greu i adlewyrchu'r chwe Maes Strategol yn *iaith fyw: iaith byw*. Serch hynny, er bod y modelau rhesymeg a'r cwestiynau ymchwil isod yn cyfateb i strwythur a chynnwys chwe Maes Strategol y



Strategaeth, bwriedir i'r gwerthusiad gynnwys asesiad sy'n ystyried ai'r meysydd hyn yw'r sail fwyaf priodol ar gyfer datblygu polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

Rhwng mis Awst a mis Medi 2011, aeth Llywodraeth Cymru ati i ddechrau datblygu sylfaen wybodaeth ar gyfer gwerthuso pa mor effeithiol yw'r Strategaeth.

Cyhoeddwyd y gwaith hwnnw law yn llaw â'r Strategaeth yn 2012 (Llywodraeth Cymru 2012b). Roedd yr Adolygiad o'r Dystiolaeth yn rhoi trosolwg o'r dystiolaeth gyfredol sy'n ymwneud â chwe phrif thema'r Strategaeth, a chanfu fylchau yn y dystiolaeth y bydd angen eu llenwi drwy ragor o ymchwil. Mae'r Fframwaith yn mynd gam ymhellach drwy nodi beth yn union yw'r cwestiynau ymchwil y mae angen eu hateb, a'r dulliau a'r offerynnau ymchwil i'w hystyried ym mhob achos.

Er mai un o brif ddibenion gwerthusiadau'r dyfodol yw asesu pa mor effeithiol yw'r mentrau penodol a ddatblygir yn enw'r Strategaeth, mae'r Fframwaith, serch hynny, yn anelu at edrych y tu hwnt i'r Strategaeth fel cyfres o ymyriadau, ac mae'n fan cychwyn ar gyfer asesu'r canlynol:

- a yw'r tybiaethau a'r damcaniaethau sy'n tanategu Strategaeth y Gymraeg yn gadarn eu sylfaen
- a yw nodau ac amcanion y Strategaeth yn briodol ac a oes modd eu cyflawni
- a yw'r Meysydd Strategol a enwir yn Strategaeth y Gymraeg yn adlewyrchu cymhlethdod y ffactorau sy'n effeithio ar fywiogrwydd y Gymraeg
- pa mor effeithiol mae gwahanol elfennau o'r Strategaeth yn gwau gyda'i gilydd a gyda pholisïau eraill Llywodraeth Cymru
- sut y mae polisïau adrannau eraill Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at amcanion allweddol Strategaeth y Gymraeg
- y graddau y mae'r Strategaeth yn cynnig llwyfan i Is-adran y Gymraeg a'i phartneriaid hybu twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg ac yn y defnydd a wneir o'r Gymraeg bob dydd
- y graddau y mae'r Strategaeth yn arwain at y newidiadau a geisir
- effeithiolrwydd y gweithdrefnau cefnogi (gan gynnwys y trefniadau ariannu) sydd eu hangen i sbarduno newid
- ffactorau sy'n rhwystro neu'n hwyluso gwireddu nodau ac amcanion y Strategaeth, e.e. a yw hyd a lled a graddfa'r gweithgareddau'n ddigon i gyflawni'r newid a fwriedir
- a yw'r mentrau a gynhelir yn cynrychioli gwerth am arian
- sut y dylai'r Strategaeth, neu ei darnau cydrannol, newid er mwyn gwireddu dyheadau Llywodraeth Cymru.

### 3 Gweithio mewn Partneriaeth

Felly, mae'r Fframwaith yn sail ar gyfer asesu pa mor ddilys neu gadarn yw Strategaeth y Gymraeg ohoni'i hun, a'r chwe Maes Strategol a enwir ynddi. Bydd yn gwneud hynny mewn cyd-destun ehangach sy'n cynnwys amryw o ffactorau sy'n cefnogi ac yn herio bywiogrwydd y Gymraeg. Mae'n cynnwys asesu rôl amryw o bartneriaid, rhanddeiliaid ac asiantaethau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ei hun, o ran cynllunio a gweithredu mentrau a pholisïau i gefnogi'r Gymraeg. Felly, mae'r Fframwaith yn braenaru'r tir ar gyfer meta-werthusiad, neu werthusiad trosfwaol, a fydd yn cymryd i ystyriaeth gymhlethdod y gwaith cynllunio ieithyddol.

Fel y mae'r Fframwaith Cysyniadol uchod yn ei ddangos, effaith gyfun cyfraniad amrywiaeth o bartneriaid sy'n gyfrifol am lwyddiant cynllunio ieithyddol. Bydd y rhaglen werthuso'n ystyried a yw'r mecanweithiau sydd eisoes ar waith i hybu cydweithio rhwng partneriaid yn effeithiol, ac a ydynt yn debygol o alluogi partneriaethau i wireddu eu potensial. Dyma rai o'r meysydd y bydd angen mynd i'r afael â hwy:

- i ba raddau y mae partneriaid yn cydweithio'n strategol i nodi cyfleoedd ac anghenion
- dealltwriaeth partneriaid o'u rolau unigol ac ar y cyd mewn perthynas â'r polisi ar gyfer y Gymraeg ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol
- effeithiolrwydd y mecanweithiau a'r strwythurau a ddyluniwyd i hwyluso a chefnogi cydweithio strategol rhwng partneriaid

Wrth i'r Fframwaith esblygu a chael ei roi ar waith, bwriedir iddo fod â swyddogaeth arall hefyd. Bydd yn gyfrwng i'r holl bartneriaid ddod i ddeall yn well beth yw eu rôl o ran gwerthuso effaith yr ymdrechion i gynnal yr iaith a'i hadfywio. Daw heriau yn sgil sefydliadu cynllunio ieithyddol, sef cynnal a chryfhau cydberchnogaeth y gweithgaredd. Drwy gynllunio iaith yn gynhwysol, byddwn yn medru deall yn well y ddeinameg rhwng cynllunio o'r brig i'r gwaelod ac o'r gwaelod i'r brig (Williams 2008:386-7).

Bydd datblygu rôl asiantaethau a phartneriaid fel cyfranogwyr yn y broses werthuso yn golygu asesu sut y mae data rheoli a data arall sy'n ymwneud â defnyddio iaith yn cael ei gasglu a'i gyflwyno ar hyn o bryd. Mae gwaith eisoes ar y gweill i ddatblygu canllawiau ynghylch casglu data ar gyfer cyrff sy'n derbyn grantiau. Bwriedir i'r rhaglen werthuso gynnwys ffocws ar ddatblygu ymhellach gapasiti partneriaid i roi tystiolaeth ynghylch canlyniadau eu mentrau. Bydd hyn yn cynnwys datblygu dealltwriaeth y partneriaid o werth hunanwerthuso a'r angen i gyfuno data er mwyn gwerthuso'r Strategaeth ar lefel genedlaethol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys cwestiynau mwy cymhleth yn ymwneud â'r technegau sy'n angenrheidiol i werthuso effaith gweithgareddau i hybu caffael y Gymraeg a'i defnyddio.

Hefyd, bydd angen archwilio rôl Llywodraeth Cymru ei hun, o ran ei phrosesau gwerthuso yn ogystal ag o ran gweithredu ei pholisi ar gyfer y Gymraeg. Yn y chwe maes strategol mae angen ymyriadau ar draws amrywiaeth eang o feysydd polisi, gan gynnwys Addysg, Iechyd, Cynllunio, Tai, Adfywio a Threftadaeth. Mae nod Llywodraeth Cymru o brif ffrydio'r Gymraeg yn y meysydd polisi hyn yn ganolog i lwyddiant y Strategaeth, ac mae angen archwilio i ba raddau y mae'n gwireddu'r nod hwn.

Yn yr un modd, bydd angen i Lywodraeth Cymru gael gwybod a yw ei phroses o gomisiynu ymchwil a gwerthuso mewn gwahanol feysydd polisi yn cynnwys systemau priodol i sicrhau bod yr effaith ar y Gymraeg ac ar y bobl sy'n ei siarad yn cael ei gwerthuso mewn modd systematig, a hynny fel mater o drefn. Er mwyn mynd i'r afael â'r ddau gwestiwn hyn bydd angen adolygiad cynhwysfawr o'r prif ddogfennau polisi, a'r astudiaethau gwerthuso yn y meysydd polisi allweddol, fel y gellir pwysu a mesur gwaith y Llywodraeth o ran prif ffrydio'r Gymraeg.

### **3.1 Cyfathrebu, Gwybodaeth a Chefnogaeth**

Mae cyfathrebu effeithiol yn ffactor allweddol wrth weithredu'r polisi ar gyfer y Gymraeg. Mae'n cynnwys:

- ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o nodau'r polisi ar gyfer y Gymraeg o fewn ac ar draws adrannau Llywodraeth Cymru
- dosbarthu gwybodaeth am bolisiau a mentrau Llywodraeth Cymru ymhlith partneriaid a rhanddeiliaid
- dosbarthu gwybodaeth am weithgareddau a mentrau partneriaid Cymraeg
- gwybodaeth, canllawiau a chefnogaeth ar gyfer cynulleidfaoedd a buddiolwyr penodol (e.e. gwybodaeth i rieni ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg; gwybodaeth am gyfleoedd i ddysgu Cymraeg)
- gwybodaeth am fanteision sgiliau yn y Gymraeg (e.e. yn y gweithle)

Mae angen archwilio'r mecanweithiau a ddefnyddir ar hyn o bryd i gefnogi gwaith yn y meysydd hyn. Bydd angen i'r Llywodraeth wybod a yw ei Strategaeth Gyfathrebu fewnol ac ar gyfer partneriaid a chynulleidfaoedd allanol, yn effeithiol ac yn briodol. Wrth werthuso'r trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth a chefnogaeth, bydd gofyn ystyried y dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd i nodi ac ymateb i anghenion gwahanol gynulleidfaoedd. Bydd hyn yn golygu archwilio a yw'r wybodaeth a'r cyngor a ddarperir gan ystod o asiantwyr a sefydliadau yn gydlynol ac yn gyson. Mae Maes Strategol 6 Strategaeth y Gymraeg yn cyfeirio at y gweithgareddau marchnata a hysbysebu sydd eu hangen i hyrwyddo gwerth y Gymraeg ac i annog pobl i'w defnyddio. Tynnir sylw at botensial technoleg ddigidol a phwysigrwydd pobl ifanc fel grŵp targed yn y cyd-destun hwn. Bydd angen i'r rhaglen werthuso ymgorffori'r blaenoriaethau hyn yn yr ystyriaethau a nodwyd uchod.

## 4 Dangosyddion

Hyd yma mae dau ddangosydd wedi'u pennu i fesur llwyddiant cyffredinol y Strategaeth, ac maent wedi'u cynnwys yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011-2016:

- Canran y plant pum mlwydd oed (ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) sy'n siarad Cymraeg gartref
- Canran y bobl sy'n gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg

Pennwyd dangosyddion i bob un o'r chwe Maes Strategol hefyd, a'u nod yw mesur llwyddiant mewn meysydd gweithgaredd penodol. Mae'r dangosyddion hyn wedi'u cynnwys ym modelau rhesymeg y Meysydd Strategol perthnasol yn Rhan II, ochr yn ochr â manylion y data y bydd angen eu defnyddio. Mae gwaith yn mynd rhagddo i benderfynu pa ddata y gellir ei ddefnyddio. Bydd canlyniad y gwaith hwn yn cael ei gyhoeddi mewn Erthygl Ystadegol yn ystod gwanwyn 2013. Bwriedir gwneud rhagor o waith ar ddiffinio'r dangosyddion hyn wrth i'r Fframwaith Gwerthuso ddatblygu ac wrth i'r gwerthusiadau fynd rhagddynt. Yn yr adran 'Dulliau Ymchwil' isod, nodir y cyfleoedd posibl i gasglu data drwy fynd ar drywyddau ymchwil newydd mewn arolygon sydd eisoes yn bod, a thrwy ddulliau newydd o gasglu data.

Bydd angen i unrhyw waith pellach ar ddatblygu'r dangosyddion gymryd i ystyriaeth y nodau a'r amcanion a nodir uchod. Hefyd, ni ddylent gael eu cyfyngu i bamedrau unrhyw ymyriadau penodol sydd wedi'u llunio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Er enghraifft, dylai rhai dangosyddion gydnabod y ffaith nad yw defnyddio'r Gymraeg mewn rhai cymunedau a chyd-destunau o reidrwydd yn deillio o fentrau dynodedig. Yn wir, lle ceir tystiolaeth mewn cymunedau o'r fath bod cefnogaeth i weithgareddau Cymraeg penodol, gellid dehongli hynny fel dirywiad ym mywiogrwydd y Gymraeg fel yr iaith arferol, bob dydd sy'n cael ei harfer yn ddigymell.

Mae gofyn cael dealltwriaeth fanwl o'r data sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn datblygu dangosyddion ar y defnydd o'r iaith. Mae hyn, yn ei dro, yn cynnwys ystyriaeth o'r data sy'n cael ei ddarparu a'i gasglu gan sefydliadau sy'n hybu ac yn cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys y rheini a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn hwyluso'r broses o gau'r bylchau presennol yn yr wybodaeth ac yn osgoi dyblygu o ran y data a gesglir. Mae'n bwysig bod y sefydliadau sy'n darparu data yn deall beth yw eu rôl a beth yw pwrpas y data, ei ansawdd a sut y caiff ei ddefnyddio. Mae'n bwysig hefyd eu bod yn cael cefnogaeth ddigonol yn hyn o beth.

## 5 Fframwaith Cysyniadol Cynllunio Ieithyddol


Lluniwyd y Fframwaith Gwerthuso hwn ar yr egwyddor bod amryw o ffactorau sy'n ddibynnol ar ei gilydd yn dylanwadu ar y defnydd a wneir o iaith ac ar ymddygiad ieithyddol. Yn yr un modd, mae mwy nag un haen i gynllunio ieithyddol, ac mae mwy iddo na rheoli cyfres o ymyriadau gwahanol. Mae'r gweithgarwch cynllunio ieithyddol yng Nghymru wedi cydnabod y gyd-ddibyniaeth hon o'r cychwyn cyntaf (gweler, er enghraifft, *Yr Iaith Gymraeg - Gweledigaeth a Chenhadaeth 2000-05*, lle caiff gweithgarwch cynllunio ieithyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg ei ddehongli yng nghyd-

destun pedwar maes: caffael, defnydd, statws a chynllunio corpws; Bwrdd yr Iaith Gymraeg 1999).

Ers y 1970au mae sawl ymgais wedi'i wneud i ddatblygu modelau ar gyfer adfywio iaith a sbarduno newid ieithyddol. Mae damcaniaeth Joshua Fishman, *Reversing Language Shift* (RLS) 1991 a'r GIDS (Graded Intergenerational Disruption Scale) yn dangos sut y ceisiwyd ystyried ymdrechion i adfywio iaith fel cyfres o gyfnodau rhyngddibynnol a chronnol (gweler hefyd Fishman 2001). Aethpwyd ati, wedi hynny, i fireinio model Fishman, ac arweiniodd hynny at ffyrdd eraill o ddangos deinameg ymddygiad ieithyddol a newid ieithyddol. Yn olwyn Miquel Strubell gwelir perthynas rhwng pedwar maes:

- Gallu ieithyddol
- Y defnydd cymdeithasol a wneir o'r iaith
- Y cynnyrch a'r gwasanaethau sydd ar gael yn yr iaith a'r galw amdanynt
- Y cymhelliant i ddysgu'r iaith a'i defnyddio

Dangosir y berthynas rhyngddynt ar ffurf cylch, yn hytrach na llinell (Strubell 2001). Wrth i fwy o bobl ddod yn fwy rhugl yn yr iaith, bydd y defnydd o'r iaith mewn cylchoedd cymdeithasol yn cynyddu. Bydd hynny, yn ei dro, yn cynyddu'r galw am ddefnyddio'r iaith. Drwy roi mwy o amlygrwydd i'r iaith yn gyhoeddus, gellir cael effaith gadarnhaol ar ganfyddiad unigolion o ddefnyddioldeb yr iaith ac ar eu cymhelliant i'w dysgu.



Addaswyd o Strubell (2001)

Bu ymdrechion eraill hefyd i ddangos nad ar ffurf llinell syth y mae ymddygiad ieithyddol a newid ieithyddol yn digwydd, a gwelwyd, yn sgil y rheini, bod angen am

fodel o fwy nag un dimensiwn. Ceir datblygiad pellach ar fodel Fishman yn *Policy-to-outcome Path* Grin & Moring (2002). Yn hwnnw, ystyrir bod angen cyfuniad o dair amod i sicrhau bywiogrwydd ieithyddol, sef y gallu i ddefnyddio'r iaith, y cyfleoedd i'w defnyddio, a'r awydd i'w defnyddio. Hefyd, mae mwy a mwy yn dod i sylweddoli bod angen deall adfywiad ieithyddol yng nghyd-destun proffiliau cymdeithasol (Darquennes 2007). Sail y dull proffilio cymdeithasol a gynigir gan Darquennes yw egwyddorion ecoleg iaith. Mae'n tynnu sylw at y defnydd a wneir o iaith mewn cyd-destunau cymdeithasol, ac arwyddocâd hynny. Mae'r model hwn, sy'n dibynnu ar gyd-destun, ac sy'n defnyddio dimensiynau gwybyddol, cymdeithasol ac affeithiol y defnydd a wneir o iaith leiafrifol, yn offeryn a allai fod yn bwerus iawn i archwilio deinameg gymdeithasol y defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymunedol penodol. Mae hyn, yn ei dro, yn golygu y gellir gwneud asesiad mwy ystyrlon o fentrau Llywodraeth Cymru i hybu a chynnal bywiogrwydd y Gymraeg fel iaith gymunedol.

Un elfen allweddol ym mhob un o'r modelau uchod yw seicoleg ymddygiad ieithyddol. I bob golwg, mae ymwybyddiaeth gyffredinol bod ffactorau sy'n ymwneud ag agweddau, o ran parodrwydd neu gyndynrwydd siaradwyr i ddefnyddio'r Gymraeg, yn bwysig. Serch hynny, mae angen dealltwriaeth gliriach o'r hyn sy'n sbarduno dewisiadau ieithyddol. Felly, dylai rhai cwestiynau ymchwil ganolbwyntio'n benodol ar hunaniaeth ieithyddol a seicoleg defnyddio'r Gymraeg. Yn y cyd-destun hwn, un trywydd penodol y dylid ei ddilyn yw effaith naratif a disgwrs ar seicoleg dewisiadau ieithyddol. Ar gyfer y gwaith hwn bydd yn bwysig cyfeirio at waith sy'n cael ei wneud mewn meysydd polisi eraill (gweler, er enghraifft, Cynnal Cymru 2012) i archwilio dulliau o sbarduno newid ymddygiadol (er enghraifft datblygu cynaliadwy).

## 6 Heriau a Risgiau Methodolegol

Y prif heriau wrth werthuso Strategaeth y Gymraeg yw:

- cymhlethdod y meta-werthusiad, oherwydd rhyngddibyniaeth y ffactorau sy'n ymwneud â chaffael iaith a'i defnyddio. Gall fod yn anodd cyfiawnhau'r honiadau mai ymyriadau penodol ac nid amgylchiadau allanol neu ychwanegol sy'n gyfrifol am ganlyniadau llwyddiannus.
- yr angen am gyfuno amrywiaeth gymhleth o ddata a gwybodaeth
- asesu arwyddocâd a dylanwad cymharol ffactorau allanol nas cyfeirir atynt yn y Strategaeth (gan gynnwys dylanwad y Saesneg fel iaith fyd-eang)

Mae'r Fframwaith Gwerthuso yn cydnabod y cymhlethdod hwn. Mae hefyd yn tynnu sylw at yr angen am ddulliau ac offerynnau gwerthuso a all archwilio ai ymyriadau penodol neu effaith gyfun nifer o ffactorau gwahanol sy'n gyfrifol am ganlyniadau o ran ymddygiad ieithyddol, ac i ba raddau y bo hynny. Bydd angen astudiaethau gwerthuso sydd wedi'u llunio i ddangos effaith sefyllfa wrthffeithiol, hynny yw beth fyddai wedi digwydd pe na fyddai menter wedi'i rhoi ar waith.

Mae ffactorau rhyngddibynnol yn fwy perthnasol fyth pan roddir nodau Strategaeth y Gymraeg ochr yn ochr â nodau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru 2010a). Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw cael:

*“system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefnidir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.”*

(Y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, t. 4).

Mae cynaliadwyedd y polisi ar gyfer y Gymraeg yn dibynnu ar fod deialog gydlynol a systematig rhwng y ddwy Strategaeth. Yn y modelau rhesymeg a'r cwestiynau ymchwil isod yn Rhan II nodir lle mae'r ddwy Strategaeth yn cydblethu. Mae hyn yn dangos swyddogaeth cynllunio hirdymor wrth feithrin gallu o ran sgiliau yn y Gymraeg.

Yn y cyd-destun hwn, gallai gweithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg fod yn elfen hanfodol ar gyfer cyflawni'n effeithiol meysydd allweddol Strategaeth y Gymraeg (er enghraifft defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle). Bwriedir y bydd y meta-werthusiad a'r gwerthusiadau llai ar lefel prosiectau yn asesu, fel y bo'n briodol, arwyddocâd y ddeinameg rhwng y ddwy Strategaeth. Ar yr un pryd, bydd angen i'r rhaglen werthuso gymryd i ystyriaeth y meysydd polisi a'r mentrau sy'n rhan o gylch gwaith rhaglen werthuso'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Comisiynwyd gwerthusiad manwl o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ym mis Medi 2012, a disgwyliar yr adroddiad terfynol yn 2015. Caiff rhaglen werthuso Strategaeth y Gymraeg ei datblygu yng nghyd-destun canfyddiadau'r gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Mae'r heriau eraill y bydd angen i'r rhaglen werthuso eu hystyried yn cynnwys:

- cael gwybodaeth am y budd a ddaw o'r Strategaeth yn yr hirdymor (e.e. profiadau plant sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg, eu defnydd o'r Gymraeg yn ystod eu harddegau, ac yn ddiweddarach wrth fagu eu plant eu hunain)
- cael gwybodaeth am effeithiau annirweddol y Strategaeth, sy'n debygol o fod yn anodd eu priodoli i un maes strategol neu un fenter benodol (er enghraifft y lefelau o ewyllys da tuag at y Gymraeg ymhlith pobl nad ydynt yn medru'r Gymraeg, a hynny'n cael ei sbarduno gan anogaeth gadarnhaol i ddysgu Cymraeg yn y gweithle, a allai arwain at gynnydd yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg)

Yn ogystal, cymharol fach yw rhai o'r mentrau i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a bach hefyd yw'r buddsoddiad a wneir ynddynt. Mae'r adnoddau sydd ar gael i wneud ymchwil gadarn i'w gwerthuso hefyd yn gyfyngedig. Mae risgiau yn gysylltiedig â hynny y bydd angen eu cymryd i ystyriaeth. Fel y nodwyd yn yr Adolygiad o'r Dystiolaeth 2012, 'yn gyffredinol, ceir diffyg tystiolaeth empiraidd o effeithiolrwydd polisiâu unigol i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg' (Llywodraeth Cymru 2012b:49). Mae angen edrych yn feirniadol ar ymyriadau ar raddfa fach ac ystyried a ydynt yn abl i sicrhau newid ystyrion a pharhaus. Mae hefyd angen nodi unrhyw arferion gorau a gwersi sy'n dod i'r amlwg er mwyn gwella'r rhaglen a'r broses weithredu.

Ar yr un pryd, bydd angen i'r rhaglen werthuso ddangos ymwybyddiaeth o'r amrywiadau sylweddol yng Nghymru o safbwynt y defnydd o'r Gymraeg a'i

bywiogrwydd. Dylai'r ymwybyddiaeth honno helpu wrth benderfynu pryd y bydd yn ymarferol, neu'n ddymunol hyd yn oed, i ystyried yr effaith ar lefel genedlaethol. Bydd cael cydbwysedd rhwng yr angen am asesiad realistig o effaith ymyriadau ar raddfa fach ar y naill law, a chydabod mor bwysig yw teilwra'r ymyriadau i ddiwallu'r anghenion gwahanol sydd gan siaradwyr a chymunedau ledled Cymru ar y llaw arall, yn allweddol i lwyddiant y rhaglen werthuso.

## 7 Dulliau Ymchwil

Disgwylir y caiff amryw o ddulliau ymchwil eu defnyddio i fesur effaith yr ymyriadau ac i helpu i lunio'r polisi ar gyfer y Gymraeg yn y dyfodol. Mae'r adran hon yn amlinellu'r dulliau y rhagwelir y byddant yn darparu'r math o dystiolaeth a dadansoddi sydd eu hangen i werthuso'r Strategaeth yn drylwyr. Cânt eu cyflwyno fel cyfres o opsiynau i'w hystyried wrth gomisiynu gwaith i werthuso'r Strategaeth, yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael a chapasiti.

Yn fras, dylai'r dulliau methodolegol gynnwys:

- cyfuniadau o ddata eilaidd (hynny yw data sydd eisoes ar gael). Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi data mewn arolygon presennol, a hefyd mynd ar drywydd ymchwil newydd
- gwerthusiadau ar lefel prosiectau (o ran effaith a phroses)
- dadansoddiadau ag iddynt thema neu gyd-destun penodol

Bwriedir y bydd y cyfuniad hwn o ddulliau yn elwa ar fanteision ffyrdd meintiol ac ansoddol (gan gynnwys dulliau ethnograffig) o ddeall ymddygiadau ieithyddol a newid ieithyddol.

### 7.1 Cyfuniadau o ddata eilaidd

#### 7.1.1 Data o arolygon o'r boblogaeth a chyfrifiadau

Disgwylir y bydd y gwerthusiadau yn defnyddio'r data sydd eisoes ar gael yn y cyfrifiadau a'r arolygon canlynol:

- Y Cyfrifiad
- Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
- Yr Arolwg Cenedlaethol (a'i ragflaenydd Byw yng Nghymru )
- Arolygon Defnydd o'r Gymraeg 2004-06
- Arolwg Agweddau Cyflogwyr
- Arolwg Sgiliau Cyflogwyr
- Y Prosiect Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (a Phrosiect Anghenion Sgiliau Cymraeg arfaethedig Gwybodaeth am y Farchnad Lafur)
- Arolygon Llais y Dysgwr
- Arolwg Pobl Llywodraeth Cymru (a'i ragflaenydd yr Arolwg Staff Blynyddol)
- Arolwg Parod at y Dyfodol Llywodraeth Cymru

Bwriedir chwilio am gyfleoedd i wella lefel yr wybodaeth am allu yn y Gymraeg a'r defnydd a wneir o'r Gymraeg. Gwneir hynny drwy ychwanegu arolygon dilynol a



chyflwyno trywyddau ymchwil eraill yn yr arolygon cyfredol. Bydd y rheini'n cynnwys y canlynol:

- Yr Arolwg Cenedlaethol
- Astudiaeth Carfan y Mileniwm
- Yr Astudiaeth Bywyd

Lle bo hynny'n briodol, bydd y trywyddau ymchwilio newydd hyn yn ystyried y gwerth o addasu modelau a dulliau a ddefnyddiwyd mewn sefyllfaoedd dwyieithog y tu hwnt i Gymru, er enghraifft Arolwg Gweithwyr Gwasanaethau Cyhoeddus Canada (Ystadegau Canada).

#### *7.1.2 Ffynonellau eraill o ddata a gwybodaeth eilaidd*

Bydd cael gwybodaeth reoli ac asesiadau effaith gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn elfen allweddol o'r gwerthusiad. Mae rôl y Fframwaith Gwerthuso o ran datblygu ymdeimlad o berchnogaeth yn berthnasol yn y cyd-destun hwn. Ystyrir hefyd bod defnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid a phartneriaid yn ffordd o greu ymdeimlad o bwrpas, ac yn gymorth i ddiffinio rolau a chyfrifoldebau o ran cyflawni nodau'r Strategaeth.

Fel y nodwyd eisoes, bwriedir y bydd y rhaglen werthuso yn cynnwys ffocws ar ddatblygu capasiti partneriaid i gyfrannu at werthuso ac ymchwilio. Bydd hyn yn cynnwys rhoi canllawiau i bartneriaid ynghylch casglu data. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i'r rhai sy'n derbyn grant gan Lywodraeth Cymru roi asesiad o effaith eu gwaith yn unol â'r canllawiau yn *Proving and Improving: a quality and impact toolkit for charities, voluntary organisations and social enterprise*. Mae'r llythyron cynnig grant a anfonwyd at bartneriaid ar gyfer 2013-14 yn cynnwys targedau manwl mewn perthynas â'r gwaith a fydd yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn. Mae'r targedau hyn, ynghyd â'r mecanweithiau monitro a fydd yn cael eu rhoi ar waith i gofnodi allbynnau, yn sylfaen ar gyfer ystyried ymhellach y ffyrdd mwyaf effeithiol o gynnwys partneriaid yn y broses o gasglu data ac adrodd ar ganlyniadau ymyriadau penodol. Dylai'r canllawiau a ddarperir i bartneriaid yn y llythyron cylch gwaith a thrwy gyfrwng prosesau monitro gael eu hadolygu fel rhan o'r gwaith gwerthuso.

Yn Atodiad 1 ceir manylion y sefydliadau sy'n cael cyllid yn 2013-14.

Hefyd, bydd y canlynol yn adlewyrchu ar y gwerthusiad:

- Adroddiadau Blynyddol gan sefydliadau ar weithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg (a Safonau'r Gymraeg maes o law)
- Adroddiadau Blynyddol ac Adroddiadau Pum Mlynedd Comisiynydd y Gymraeg
- Data gwasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys y DVLA, Gwasanaeth Iechyd Gwladol, ac ymatebion i arolygon swyddogol y Llywodraeth)

## **7.2 Gwerthusiadau ar lefel prosiectau**

Bwriedir y bydd gwerthusiadau ar lefel prosiectau yn adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yma i asesu effaith ymyriadau penodol a luniwyd i hwyluso caffael y Gymraeg a'i defnyddio. Bydd yr Adolygiad o Dystiolaeth Strategaeth y Gymraeg yn gyfeirbwynt ar gyfer y gwaith hwn, yn ogystal â'r angen am flaenoriaethu (gweler isod). Ceir manylion y prosiectau a'r contractau sydd ar waith yn 2012-13 yn Atodiad 1.

## **7.3 Dadansoddiadau ag iddynt thema neu gyd-destun penodol**

Bwriedir hefyd y bydd sylw penodol yn cael ei roi i'r canlynol fel ffordd o gael darlun llawnach o ddylanwad cyfun amryw o ffactorau ar ymddygiad a gweithgarwch ieithyddol. Mae'r dulliau hyn yn werthfawr o ran cael tystiolaeth ansoddol, dadansoddi disgwrs a dulliau ethnograffeg o ddeall ymddygiad ieithyddol a newid ieithyddol. Gallent hefyd arwain at ddulliau effeithiol o adnabod gwrthffeithiau, oherwydd bydd modd dewis samplau mwy o faint.

### *7.3.1 Astudiaethau achos o grwpiau penodol o siaradwyr*

Bydd y dull hwn yn golygu canolbwyntio'n fanwl ar grwpiau o ddiddordeb ieithyddol-gymdeithasol, er enghraifft teuluoedd â phlant oedran cyn-ysgol mewn ardaloedd daearyddol penodol lle mae un rhiant neu'r ddau wedi caffael y Gymraeg drwy'r system addysg.

### *7.3.2 Astudiaethau o ardaloedd penodol*

Ar gyfer ambell gwestiwn gwerthuso bydd angen astudio rhai ardaloedd yng Nghymru'n fwy trylwyr . Bydd y dull hwn o weithredu yn effeithiol wrth asesu effaith gronol yr ymyriadau a/neu'r amgylchiadau ieithyddol, er enghraifft proffil sgiliau'r gymuned yn y Gymraeg, pa mor hawdd yw cael darpariaeth Gymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar, dylanwad cyfleoedd lleol i gael cyflogaeth lle caiff y Gymraeg ei defnyddio yn y gweithle. Bwriedir chwilio am gyfle i ddefnyddio potensial proffiliau cymdeithasol i wella ein dealltwriaeth o'r ddeinameg o ddefnyddio'r iaith mewn amgylchiadau cymdeithasol penodol (Darquennes 2007).

### *7.3.3 Astudiaethau o grwpiau oed penodol*

Ar gyfer cwestiynau gwerthuso eraill bydd angen canolbwyntio ar grwpiau oed penodol. Gallai astudiaethau o'r fath fod yn ddull effeithiol o ymchwilio i brofiadau grwpiau o bobl o'r un oed ledled Cymru, ac archwilio effaith ffactorau fel sgiliau yn y Gymraeg, agweddau tuag at y Gymraeg a dylanwad rhwydweithiau cymdeithasol ar y defnydd a wneir o'r iaith.

### *7.3.4 Astudiaethau o barthau a sefyllfaoedd penodol*

Bydd y rhain yn fodd i ddadansoddi'n fanwl y rhyngweithio ieithyddol mewn sefyllfaoedd neu gyd-destunau allweddol lle mae ffactorau penodol yn effeithio ar ddewis iaith, er enghraifft gweithleoedd, a gweithgareddau penodol mewn gweithleoedd, er enghraifft cyfarfodydd mewnol. Dyma rai o'r ffactorau y gellid eu hystyried yn yr astudiaethau hyn: sgiliau ieithyddol a barn (barn yr unigolion eu hunain a barn eraill) am allu yn yr iaith; faint o 'fâs critigol' o siaradwyr Cymraeg sydd ar gael i greu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg; dylanwad agweddau sefydliadol a chorfforaethol at y Gymraeg.

### 7.3.5 Arolygon hydredol

Er bod rhai agweddau ar y defnydd a wneir o'r iaith yn dangos newid yn y tymor byr (er enghraifft plant bach yn caffael yr iaith yn ifanc iawn), gydag amser y mae'r defnydd o'r iaith a'r agweddau tuag ati yn newid fel rheol. Bydd angen ystyried dulliau o gasglu gwybodaeth am y newid ym mhatrymau'r defnydd a wna pobl o'r iaith gydol eu hoes. Drwy wneud hyn bydd modd i ni ddeall yn well y cyfnodau o drawsnewid sy'n cryfhau agweddau ac ymddygiad neu sy'n sbarduno newid. Yna gallwn asesu a yw'r newidiadau hyn yn debygol o fod yn rhai dros dro neu'n barhaol.

### 7.3.6 Arolygon o fuddiolwyr

Bydd y rhain yn ddull ychwanegol o ganolbwyntio ar grwpiau lle mae elfennau penodol yn Strategaeth y Gymraeg wedi'u llunio i gyflawni newid. Gallai'r buddiolwyr gynnwys: teuluoedd, gweithleoedd, defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus.

## 8 Yr amserlen a'r blaenoriaethau

Mae'r Fframwaith hwn yn cynnwys nifer o ddulliau ymchwil a fydd yn amrywio o ran hyd, dwyster a phwrpas. Bydd y ffactorau canlynol, ymhlith pethau eraill, yn dylanwadu ar amseriad a natur yr ymchwil:

- graddfa a chymhlethdod y rhaglenni
- i ba raddau y disgwylir i'r rhaglenni gael dylanwad
- amseriad penderfyniadau polisi
- yr amser a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwerthuso
- cryfder y dystiolaeth bresennol

Bydd cymryd y ffactorau hyn i ystyriaeth yn helpu i wneud penderfyniadau am y manteision o werthuso'n ddwys a thrwyadl yn hytrach nag yn 'llai manwl'. Hefyd, bydd angen ystyried a yw'n werth treialu rhai agweddau neu feysydd ymchwil, er mwyn lleihau'r risg y caiff amser ac adnoddau eu buddsoddi mewn ymchwil aneffeithiol.

Bydd y broses o flaenoriaethu hefyd yn ystyried ac yn cefnogi Cynlluniau Gweithredu Strategaeth y Gymraeg. Yng Nghynllun Gweithredu 2012-13 ceir yr ymrwymadau canlynol o ran gwerthuso ac adolygu:

- Gwerthuso effaith y prosiectau sy'n ceisio hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. [Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg) a Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi]
- Ystyried a oes modd efelychu'r gwaith sydd wedi'i wneud o fewn Ardal Adfywio Strategol Môn a Menai mewn perthynas â'r iaith, sy'n cynnwys y fenter Brocer Iaith ym Mheblig, mewn ardaloedd eraill. [Yr Adran Tai, Adfywio a Threftadaeth ac Is-adran y Gymraeg (Uned y Gymraeg yn y Gymuned)]
- Gwneud ymchwil fel sail i'r gwaith o ddatblygu strategaeth farchnata gydgysylltiedig ar gyfer yr iaith. [Tîm Marchnata a Chyfathrebu'r Adran Addysg a Sgiliau]

Bydd nifer fach o'r prosiectau ymchwil a'r adolygiadau sydd eisoes yn mynd rhagddynt, neu y mae disgwyl iddynt gael eu comisiynu erbyn mis Mawrth 2013, yn cyfrannu at waith gwerthuso pellach a wneir o ganlyniad i'r Fframwaith Gwerthuso hwn.

### **Prosiect ymchwil i archwilio defnydd iaith siaradwyr Cymraeg**

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio mewn partneriaeth ag S4C a BBC Cymru ar brosiect ymchwil i archwilio ymddygiad, agweddau a dyheadau siaradwyr Cymraeg o ran eu defnydd o'r iaith mewn amryw o sefyllfaoedd (gan gynnwys gweithgareddau, gwasanaethau a'r cyfryngau Cymraeg). Dechreuodd y gwaith maes ym mis Ionawr 2013, ac mae disgwyl i'r canfyddiadau allweddol gael eu cyflwyno erbyn ddiwedd mis Mawrth 2013.

### **Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Eisteddfod**

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gynghori'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar ffurf bresennol yr Eisteddfod a'r posibiladau ar gyfer ei datblygu yn y dyfodol. Disgwylir i'r Grŵp gyflwyno ei gyngor a'i argymhellion erbyn diwedd mis Medi 2013.

### **Adolygiad o waith y Mentrau Iaith**

Disgwylir i'r adolygiad o waith y Mentrau Iaith gael ei gomisiynu erbyn diwedd mis Mawrth 2013. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y strwythurau a'r mecanweithiau a ddefnyddir gan y Mentrau a'u partneriaid i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau.

Yn ogystal, rhagwelir y bydd gofyn gwneud rhai clystyrau o werthusiadau ar lefel prosiectau ar y cyd fel rhan o werthusiadau ehangach. Nod y rheini fydd mesur effaith gronnol amrywiaeth o ymyriadau mewn ardaloedd daearyddol penodol neu ymhlith grwpiau penodol o siaradwyr. Bydd angen gwneud gwerthusiadau eraill ar lefel prosiectau yn unigol.

Lle gwelir bod angen mynd ar drywyddau ymchwil newydd mewn arolygon sydd eisoes ar waith, bydd angen cymryd i ystyriaeth yr amserlen ar gyfer cyflwyno cwestiynau ychwanegol i arolygon.

## **Rhan II: Modelau Rhesymeg, Cwestiynau, Dulliau ac Offerynnau Ymchwil**

Fel y sonnir uchod, mae Strategaeth y Gymraeg yn gymhleth ac yn amlweddol. Nodir y llwybrau achosol sy'n sail i resymeg chwe Maes Strategol y Strategaeth isod mewn cyfres o fodelau rhesymeg. Mae'r modelau hyn yn dangos sut y mae disgwyl i weithgareddau penodol arwain at allbynnau a chanlyniadau. Ar gyfer pob un o'r chwe Maes Strategol, mae'r model rhesymeg yn dangos sut y dylai gweithgareddau neu fentrau a gynlluniwyd gyfrannu at y nod lefel uchel ehangach. Mae'r Model Rhesymeg Trosfwaol yn dwyn ynghyd elfennau allweddol y chwe Maes Strategol ac yn rhoi trosolwg o sut y disgwylir iddynt gyfrannu at weledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru o weld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. Mae'r Cwestiynau Ymchwil yn rhoi darlun mwy manwl o'r prosiectau, yr ymyriadau a'r mewnbynnau polisi sy'n sail i bob Maes Strategol.

Yn ôl rhesymeg y model, bydd cyflawni'r canlyniadau a gwireddu'r rhagdybiaethau yn arwain at set o ganlyniadau. Os yw'r canlyniadau wedi'u cyflawni a'r rhagdybiaethau wedi'u gwireddu, cyflawnir y diben. Os yw'r diben wedi'i gyflawni a'r rhagdybiaethau wedi'u gwireddu, bydd y nod wedi'i gyrraedd. Mae'r modelau rhesymeg yn dwyn ynghyd elfennau allweddol y mentrau a gynlluniwyd, ac yn cynnig set glir o ddatganiadau am y cysylltiad a ragwelir rhwng gweithgareddau a chanlyniadau. Un o gyfyngiadau'r modelau rhesymeg yw nad ydynt yn cwmpasu'n llawn cymhlethdod cynllunio ieithyddol ac ymddygiad ieithyddol. Mae'r 'Risgiau a'r Rhagdybiaethau' yn ceisio dangos prif nodweddion y gyd-ddibyniaeth hon rhwng amgylchiadau ieithyddol-gymdeithasol, yn benodol y cysylltiad rhwng caffael y Gymraeg a gallu ieithyddol, y cymhelliant i ddefnyddio'r iaith, y galw am wasanaethau, a'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Un o nodau cyntaf y gwerthusiad fydd datblygu'r theori hon o newid sydd ymhlyg yn y modelau rhesymeg er mwyn gweld a fydd y gweithgareddau a nodwyd yn darparu'r amodau sydd eu hangen i gyflawni'r hyn a ddymunir. O ran hynny, mae'r modelau rhesymeg yn ddogfennau byw y dylid eu hadolygu wrth ddatblygu'r rhaglen werthuso.

Mae'r modelau rhesymeg a'r cwestiynau ymchwil yn cyd-fynd â strwythur a chynnwys chwe Maes Strategol y Strategaeth. Fodd bynnag, bydd disgwyl i'r gwerthusiad gynnwys asesiad i weld a yw'r meysydd hyn yn darparu'r sail fwyaf priodol ar gyfer datblygu polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

## 9 Model Rhesymeg Trosfwaol Strategaeth y Gymraeg (Fframwaith y Strategaeth gyfan)

| Strwythur y Prosiect  | Dangosyddion Cyflawniad   | Dulliau Gwirio  | Risgiau a Rhagdybiaethau   |
|---|---|---|--|
| <p><b>Nod (nod hirdymor Llywodraeth Cymru):</b><br/>Gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru</p> | <p><i>Gallu</i> yn y Gymraeg</p> <p>Y <i>defnydd</i> a wneir o'r Gymraeg</p> <p>Addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg</p> <p><i>Dangosyddion Strategaeth y Gymraeg (Rhaglen Lywodraethu 2011-16):</i></p> <p>(i) Canran y plant pum mlwydd oed (ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) sy'n siarad Cymraeg gartref</p> <p>(ii) Canran y bobl sy'n gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg (DS. bwriedir newid y dangosydd hwn i 'siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg') [Dangosyddion OU99 ac OU100 o Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru]</p> | <p>Y Cyfrifiad Dengmlwyddol [Cynhaliwyd y Cyfrifiad diwethaf ym mis Mawrth 2011. Cyhoeddwyd y canlyniadau cychwynnol ar 11 Rhagfyr 2012]</p> <p>Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth</p> <p>Yr Arolwg Cenedlaethol</p> <p>Y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) [Caiff y data ei gasglu yn flynyddol a'i gyhoeddi fel arfer ym mis Gorffennaf bob blwyddyn. Mae'r cyfrifiad hwn ar gael o 2004/05 ymlaen]</p> <p>Data a gasglwyd gan sefydliadau sy'n derbyn cyllid grant gan Lywodraeth Cymru</p> <p>Adroddiadau Blynyddol gan sefydliadau ar weithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg</p> <p>Adroddiadau Blynyddol ac Adroddiadau Pum Mlynedd Comisiynydd y Gymraeg [yr Adroddiad Pum Mlynedd cyntaf i'w gyhoeddi yn 2015]</p> <p>Data gwasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys y DVLA, Gwasanaeth Iechyd Gwladol, ac ymatebion i</p> | <p>Bod dealltwriaeth gyffredin o'r hyn a olygir wrth 'iaith ffyniannus'</p> <p>Bod nifer digonol o siaradwyr â'r lefel angenrheidiol o sgiliau a fydd yn eu <i>galluogi</i> i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywyd bob dydd (yn cynnwys gweithredu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yn effeithiol)</p> <p>Bod cyfleoedd digonol i siaradwyr Cymraeg <i>gyfathrebu â'i gilydd</i> yn Gymraeg</p> <p>Bod cydbwysedd llwyddiannus rhwng sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth ar y Gymraeg ar un llaw, a mesurau ymarferol i annog cymhelliant ac awydd i ddefnyddio'r iaith ar y llaw arall</p> <p>Bod galw digonol am wasanaethau Cymraeg</p> <p>Bod mesurau cynllunio ieithyddol yn ddigon cadarn i wrthsefyll tueddiadau demograffig ac economaidd-gymdeithasol ehangach (gan gynnwys patrymau mudo a chyflogaeth)</p> <p>Bod bywiogrwydd y Gymraeg yn ddigonol i wrthsefyll pwysau'r</p> |

|  |   |  |   |
|--|---|--|---|
|  |   | arolygon swyddogol y Llywodraeth)  | Saesneg fel iaith gyfagos a byd-eang<br><br>Bod graddfa a chyrhaeddiad yr ymyriadau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn ddigonol i sicrhau newid ystyrlon a pharhaus  |
| <b>Diben:</b><br>Normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yng Nghymru  | <i>Gallu yn y Gymraeg</i><br><br><i>Y defnydd a wneir o'r Gymraeg</i><br><br>Addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg<br><br><i>Dangosyddion Strategaeth y Gymraeg (Rhaglen Lywodraethu 2011-16):</i><br>(i) Canran y plant pum mlwydd oed (ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) sy'n siarad Cymraeg gartref<br>(ii) Canran y bobl sy'n gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg (DS. bwriedir newid y dangosydd hwn i 'siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg')<br>[Dangosyddion OU99 ac OU100 o Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru] | Meta-werthusiad o elfennau'r Strategaeth<br><br>Dadansoddiadau ag iddynt thema neu gyd-destun penodol / astudiaethau achos ar grwpiau penodol o siaradwyr:<br>Astudiaethau o ardaloedd penodol<br>Astudiaethau o grwpiau oed penodol<br>Arolygon hydredol, gan gynnwys tystiolaeth ansoddol, dadansoddiadau o gynnwys a disgwrs ac astudiaethau ethnograffeg |   |
| <b>Canlyniadau:</b><br>Mwy o deuluoedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith a ddefnyddir gyda'r plant gan o leiaf un oedolyn yn y teulu sydd mewn cysylltiad rheolaidd â nhw<br><br>Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc<br><br>Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn | Lefelau trosglwyddo iaith o fewn teuluoedd<br><br>Lefelau defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd a gweithgareddau penodol<br><br>Sgiliau Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle<br><br><i>Dangosyddion Strategaeth y</i>  | Y Cyfrifiad Dengmlwyddol [Cynhaliwyd y Cyfrifiad diwethaf ym mis Mawrth 2011. Cyhoeddwyd y canlyniadau cychwynnol ar 11 Rhagfyr 11 2012]<br><br>Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth<br><br>Yr Arolwg Cenedlaethol<br><br>Y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar  | Bod gan rieni lefelau digonol o allu yn y Gymraeg, a'u bod yn ddigon rhugl a hyderus i drosglwyddo'r Gymraeg (naill ai drwy fod wedi cael trosglwyddo'r iaith oddi wrth eu rhieni eu hunain, drwy addysg a hyfforddiant ffurfiol neu gyfuniad o'r ddau); yn cynnwys gweithredu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yn effeithiol |

|   |  |   |   |
|---|--|---|---|
| <p>cymunedau ar draws Cymru</p> <p>Mwy o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith</p> <p>Mwy o wasanaethau Cymraeg o safon uchel ar gael i'r cyhoedd a mwy o ddefnydd o'r gwasanaethau hynny</p> <p>Mwy o offerynnau ac adnoddau i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys yn yr amgylchedd digidol</p> | <p><i>Gymraeg: Meysydd Strategol 1-6</i></p> | <p>Lefel Disgyblion (CYBLD) [Caiff y data ei gasglu yn flynyddol a'i gyhoeddi fel arfer ym mis Gorffennaf bob blwyddyn. Mae'r cyfrifiad hwn ar gael o 2004/05 ymlaen]</p> <p>Data a gasglwyd gan sefydliadau sy'n derbyn cyllid grant oddi wrth Lywodraeth Cymru</p> <p>Ffigyrau gwyllo a gwranddo ar gyfer y teledu a'r radio (Adroddiad Blynyddol S4C a RAJAR)</p> <p>Adroddiadau blynyddol gan sefydliadau ar weithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg</p> <p>Adroddiadau Blynyddol ac Adroddiadau Pum Mlynedd Comisiynydd y Gymraeg [yr Adroddiad Pum Mlynedd cyntaf i'w gyhoeddi yn 2015]</p> <p>Data gwasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys y DVLA, Gwasanaeth Iechyd Gwladol, ac ymatebion i arolygon swyddogol y Llywodraeth)</p> <p>Gwerthusiadau ar lefel prosiectau</p> <p>Astudiaethau achos ar grwpiau penodol o siaradwyr ynghyd â, lle bo hynny'n briodol, ddadansoddiadau ag iddynt thema neu gyd-destun penodol (gan gynnwys tystiolaeth ansoddol, dadansoddiadau o</p> | <p>Bod rhieni yn argyhoeddedig o fanteision magu eu plant drwy gyfrwng y Gymraeg</p> <p>Bod gan siaradwyr Cymraeg ddigon o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd er mwyn dod yn fwy rhugl a hyderus</p> <p>Bod gweithlu Cymraeg ar gael</p> <p>Bod cyflogwyr yn deall gwerth y Gymraeg fel sgil yn y gweithle</p> <p>Bod partneriaid yn cydweithio'n strategol wrth farchnata a chyfathrebu</p> |
|---|--|---|---|



|  |  |  |  |
|--|--|--|--|
|  |  | gynnwys a disgwrs ac astudiaethau ethnograffeg)<br><br>Astudiaethau ansoddol ac ethnograffeg â ffocws penodol ar ganlyniadau prosiectau ac ymyriadau penodol |  |
|--|--|--|--|

|  |  |   |  |
|--|--|---|--|
| <p><b>Gweithgareddau/Ailbynnau:</b><br/>Annog rhieni i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant</p> <p>Datblygu sgiliau iaith siaradwyr Cymraeg</p> <p>Gwella hyder ac awydd siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith</p> <p>Creu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg</p> <p>Cynyddu'r ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg fel sgil</p> <p>Cynyddu'r isadeiledd adnoddau Cymraeg a'r gefnogaeth sydd ar gael</p> | Tystiolaeth o roi prosiectau ac ymyriadau penodol ar waith | <p>Data rheoli ar brosiectau unigol</p> <p>Adroddiadau ariannol ar gyflenwi prosiectau</p> <p>Gwerthusiadau ar lefel prosiectau</p> | <p>Gweithredu Mesur y Gymraeg 2011</p> <p>Bod cymhelliant ac awydd i ddefnyddio'r Gymraeg ymhlith siaradwyr Cymraeg</p> <p>Bod galw digonol am wasanaethau Cymraeg</p> <p>Bod cymorth grant yn dal i gael ei roi i sefydliadau ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg</p> |
|--|--|---|--|

# Cwestiynau Ymchwil y Strategaeth Gyfan

## Cwestiynau Ymchwil Trosfwaol:

- A yw Strategaeth y Gymraeg yn llwyddo i adlewyrchu a chyfleu pa mor gymhleth yw ymddygiad ieithyddol a chynllunio ieithyddol yng Nghymru?
- A yw Strategaeth y Gymraeg yn rhoi sail gydlynol ar gyfer deall y gyd-ddibyniaeth rhyngddi a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg?
- Pa mor effeithiol yw Strategaeth y Gymraeg o ran cyflawni ei nodau ym mhob un o'i chwe Maes Strategol?
- A yw'r Dangosyddion sydd wedi'u pennu ar gyfer pob un o'r chwe Maes Strategol yn rhoi sail briodol ar gyfer mesur llwyddiannau'r Strategaeth yn feintiol?
- A yw'r Dangosyddion sydd wedi'u pennu ar gyfer pob un o'r chwe Maes Strategol yn rhoi sail briodol ar gyfer mesur bywiogrwydd y Gymraeg yn feintiol heddiw ac yn y dyfodol?
- I ba raddau y mae'r Strategaeth yn cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o brif ffrydio'r Gymraeg ar draws y meysydd polisi ac fel iaith gweinyddiaeth fewnol?
- A yw'r Strategaeth yn rhoi sail ar gyfer cydweithio strategol effeithiol rhwng partneriaid Cymraeg?
- I ba raddau y mae'r Strategaeth yn cyfrannu at well dealltwriaeth o rolau partneriaid a rhanddeiliaid yn y gwaith o gasglu a dadansoddi data at ddibenion gwerthuso?
- Sut y mae'r Strategaeth yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o effaith y fframwaith deddfwriaethol newydd a Safonau'r Gymraeg ar fywiogrwydd y Gymraeg?
- I ba raddau y mae'r Strategaeth yn helpu i ddylanwadu ar ymddygiad a'i newid?

## Themâu Trosfwaol:

- Y berthynas rhwng gallu ieithyddol a defnyddio'r iaith
- Cynaliadwyedd adfywio'r iaith a'i chynnal: trosglwyddo, caffael, addysg a hyfforddiant, Cymraeg yn y gweithle (gweler hefyd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg)
- Cynllunio ieithyddol fel gweithgaredd aml-haenog
- Sefydliadu adfywio iaith: y goblygiadau a'r heriau
- Cynllunio ieithyddol a chydberchnogaeth
- Seicoleg ymddygiad ieithyddol
- Effaith Mesur y Gymraeg 2011 ar y defnydd o'r iaith

## 10 Maes Strategol 1: Y Teulu

### Model Rhesymeg

| Strwythur y Prosiect  | Dangosyddion Cyflawniad   | Dulliau Gwirio   | Risgiau a Rhagdybiaethau   |
|---|---|--|--|
| <p><b>Nod:</b><br/>Cynnydd yn nifer y teuluoedd lle defnyddir y Gymraeg fel y brif iaith gyda'r plant gan o leiaf un oedolyn o'r teulu sydd mewn cyswllt agos â nhw</p> | <p>(i) <i>Gallu</i> teuluoedd yn y Gymraeg</p> <p>(ii) Y <i>defnydd</i> a wneir o'r Gymraeg yn y teulu</p> <p><i>Dangosydd Strategaeth y Gymraeg:</i> Canran y plant pum mlwydd oed (ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) sy'n siarad Cymraeg gartref</p> <p><i>Deiliant 1 y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg:</i> Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg</p> | <p>Y Cyfrifiad Dengmlwyddol [Cynhaliwyd y Cyfrifiad diwethaf ym mis Mawrth 2011. Cyhoeddwyd y canlyniadau cychwynnol ar 11 Rhagfyr 2012]</p> <p>Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth</p> <p>Yr Arolwg Cenedlaethol</p> <p>Y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Caiff y data ei gasglu yn flynyddol a'i gyhoeddi fel arfer ym mis Gorffennaf bob blwyddyn. Mae'r cyfrifiad hwn ar gael o 2004/05 ymlaen]</p> | <p>Bod yna ddealltwriaeth gyffredin o faint o gynnydd sydd ei angen er mwyn sicrhau newid (h.y. beth a olygir gan 'cynnydd')</p> <p>Bod modd sefydlu aelwydydd lle mae gan o leiaf un rhiant y sgiliau Cymraeg angenrheidiol i drosglwyddo'r iaith i'r plant</p> <p>Bod gan rieni lefelau digonol o ran gallu, rhuglder a hyder yn y Gymraeg i drosglwyddo'r Gymraeg (naill ai drwy fod wedi cael trosglwyddo'r iaith oddi wrth eu rhieni eu hunain, drwy addysg a hyfforddiant ffurfiol neu gyfuniad o'r ddau); yn cynnwys gweithredu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yn effeithiol</p> <p>Bod rhieni yn argyhoeddedig o fanteision magu eu plant drwy gyfrwng y Gymraeg</p> <p>Bod trosglwyddo'r Gymraeg i blant yn arwain at <i>ddefnydd</i> o'r Gymraeg rhwng rhieni a phlant</p> |

|  |   |   |  |
|--|---|---|--|
|  |   |   | Bod egwyddorion prif ffrydio'r Gymraeg ar draws meysydd polisi yn cael eu deall a'u gweithredu ar lefelau cenedlaethol a lleol/rhanbarthol   |
| <p><b>Diben:</b><br/>Hwyluso caffael y Gymraeg yn blentyn ifanc</p> <p>Sefydlu patrymau ar gyfer y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd a'u cadarnhau</p> <p>Meithrin agwedd gadarnhaol at y Gymraeg ymhlith plant ifanc</p> | <p>(i) <i>Gallu</i> teuluoedd yn y Gymraeg</p> <p>(ii) Y <i>defnydd</i> a wneir o'r Gymraeg yn y teulu</p> <p><i>Dangosydd Strategaeth y Gymraeg:</i> Canran y plant pum mlwydd oed (ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) sy'n siarad Cymraeg gartref</p> <p><i>Deiliant 1 y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg:</i> Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg</p> | <p>Y Cyfrifiad Dengmlwyddol [Cynhaliwyd y Cyfrifiad diwethaf ym mis Mawrth 2011. Cyhoeddwyd y canlyniadau cychwynnol ar 11 Rhagfyr 2012]</p> <p>Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth</p> <p>Yr Arolwg Cenedlaethol</p> <p>Y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). [Caiff y data ei gasglu yn flynyddol a'i gyhoeddi fel arfer ym mis Gorffennaf bob blwyddyn. Mae'r cyfrifiad hwn ar gael o 2004/05 ymlaen]</p> <p>Astudiaethau achos o grwpiau penodol o deuluoedd ynghyd â, lle bo hynny'n briodol, ddadansoddiadau ag iddynt thema neu gyd-destun penodol (gan gynnwys tystiolaeth ansodol, dadansoddiadau o gynnwys a disgwrs ac astudiaethau ethnograffeg)</p> | <p>Bod mentrau a dargedwyd yn benodol at hyrwyddo trosglwyddiad yr iaith a defnydd ohoni yn y teulu yn cael eu cyflwyno mewn amgylchedd ieithyddol ehangach sy'n golygu bod cynifer o gyfleoedd â phosibl i ddod i gysylltiad â'r Gymraeg, ac sy'n hyrwyddo'r broses o normaleiddio ieithyddol</p> |
| <p><b>Canlyniadau:</b><br/>Cynnydd yn nifer y teuluoedd lle trosglwyddir y Gymraeg gan o leiaf un oedolyn o'r teulu sy'n siarad Cymraeg</p>  | <p>(i) <i>Gallu</i> teuluoedd yn y Gymraeg</p> <p>(ii) Y <i>defnydd</i> a wneir o'r Gymraeg yn y teulu</p>  | <p>Y Cyfrifiad Dengmlwyddol [Cynhaliwyd y Cyfrifiad diwethaf ym mis Mawrth 2011. Cyhoeddwyd y canlyniadau cychwynnol ar 11 Rhagfyr 2012]</p>  | <p>Bod graddfa a chyrhaeddiad yr ymyriadau yn ddigonol i sicrhau newid</p> <p>Bod nodau ac amcanion rhaglenni</p>  |

|  |  |  |  |
|--|--|--|--|
| <p>Cynyddu ymwybyddiaeth rhieni o werth trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant</p> <p>Cynnydd yn lefelau sgiliau Cymraeg rhieni, a'u rhuglder a hyder yn yr iaith (gweler hefyd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Amcan Strategol 6, AS6.1)</p> <p>Darparu cymorth ymarferol ac emosiynol i rieni a'r teulu estynedig o ran yr ymarferoldeb o fod yn deulu dwyieithog</p> <p>Ymateb strategol i'r galw am ofal y blynyddoedd cynnar a darpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler hefyd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Amcan Strategol 1, AS1.4)</p> <p>Mynd ati'n gydlynol i ddatblygu'r Gymraeg rhwng y cartref/y teulu a darpariaeth addysgol</p> | <p>(iii) Y nifer sy'n ymgymryd â darpariaeth Cymraeg i Oedolion ac unrhyw ddarpariaeth arall i rieni ar gyfer dysgu'r Gymraeg</p>  | <p>Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth</p> <p>Yr Arolwg Cenedlaethol</p> <p>Y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). [Caiff y data ei gasglu yn flynyddol a'i gyhoeddi fel arfer ym mis Gorffennaf bob blwyddyn. Mae'r cyfrifiad hwn ar gael o 2004/05 ymlaen]</p> <p>Gwerthusiadau ar lefel prosiectau</p> <p>Astudiaethau achos o grwpiau penodol o deuluoedd ynghyd â, lle bo hynny'n briodol, ddadansoddiadau ag iddynt thema neu gyd-destun penodol (gan gynnwys tystiolaeth ansoddol, dadansoddiadau o gynnwys a disgwrs ac astudiaethau ethnograffeg)</p> <p>Astudiaethau ansoddol ac ethnograffeg ag iddynt ffocws penodol ar ganlyniadau prosiectau ac ymyriadau penodol (ee Twf, Mae dy Gymraeg di'n Grêt)</p> | <p>gwaith partneriaid Cymraeg yn ddigon manwl a bod iddynt ddigon o ffocws</p> <p>Bod partneriaid yn cydweithio'n strategol wrth farchnata a chyfathrebu</p> <p>Bod gan y sector gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg nifer digonol o staff sydd â'r sgiliau iaith angenrheidiol i gefnogi datblygiad plant yn y Gymraeg</p> |
| <p><b>Gweithgareddau/Allbynnau:</b><br/>Ymyriadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru sydd â'r nod o gefnogi teuluoedd i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg: Twf (Trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd); Mae dy Gymraeg di'n Grêt</p>  | <p>Tystiolaeth o roi prosiectau ac ymyriadau penodol ar waith</p> <p>Tystiolaeth o'r gwaith a wneir i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd fel rhan o raglenni gwaith ehangach sefydliadau sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg</p> | <p>Data rheoli ar brosiectau unigol</p> <p>Adroddiadau ariannol ar gyflenwi prosiectau</p> <p>Astudiaethau ansoddol ac ethnograffeg ag iddynt ffocws penodol ar ganlyniadau prosiectau ac</p>  | <p>Bod cymorth grant yn dal i gael ei roi i sefydliadau ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg</p>  |

|   |  |   |  |
|---|--|---|--|
| <p>Gwaith a wneir gan bartneriaid Cymraeg i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd [Mudiad Meithrin; Mentrau Iaith; Cynlluniau Gweithredu Iaith; Merched y Wawr; yr Eisteddfod Genedlaethol; Urdd Gobaith Cymru; Plant yng Nghymru]</p> <p>Prif ffrydio blaenoriaethau o ran y Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ymyriadau ehangach y blynyddoedd cynnar, gan gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, y Cyfnod Sylfaen</p> <p>Ymyriadau i hyrwyddo caffael sgiliau Cymraeg ymhlith rhieni a datblygu'r sgiliau hynny (darpariaeth Cymraeg i Oedolion)</p> | <p>Blaenoriaethau polisi iaith Gymraeg yn cael eu cynnwys mewn mentrau a gwerthusiadau polisi o ran y teulu/y blynyddoedd cynnar</p> | <p>ymyriadau penodol (ee Twf, Mae dy Gymraeg di'n Grêt)</p> <p>Adolygu a dadansoddi mentrau a gwerthusiadau polisi Llywodraeth Cymru o ran y teulu/blynyddoedd cynnar</p> |  |
|---|--|---|--|

## Maes Strategol 1: Y Teulu

### Cwestiynau, Dulliau ac Offerynnau Ymchwil

#### Y Prif Gwestiynau Ymchwil:

- I ba raddau y mae'r Strategaeth wedi arwain at fwy o drosglwyddo'r iaith o fewn teuluoedd?
- A yw'r Strategaeth yn darparu mecanweithiau priodol i gefnogi teuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?
- A yw'r Strategaeth, ynghyd â'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, yn rhoi sail ar gyfer datblygiad strategol gofal y blynyddoedd cynnar ac addysg cyfrwng Cymraeg?

#### Themâu:

- Trosglwyddo iaith yn y teulu
- Datblygu sgiliau Cymraeg mewn cyd-destunau teuluol a chymunedol
- Mynediad at ddarpariaeth gofal y blynyddoedd cynnar ac addysg cyfrwng Cymraeg

#### Cwestiynau Ymchwil Penodol:

- Beth yw'r amodau sydd eu hangen er mwyn i'r Gymraeg gael ei throsglwyddo o fewn teuluoedd?
- Beth yw'r amodau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y Gymraeg, wedi iddi gael ei throsglwyddo, yn cael ei defnyddio'n gyson a pharhaus?
- I ba raddau y mae'r amodau hyn yn bodoli neu i ba raddau y mae angen gweithredu i'w hategu?
- Beth yw nodweddion, anghenion a phatrymau ymddygiad gwahanol deipolegau o deuluoedd wrth drosglwyddo'r Gymraeg? (*i'w hystyried: gallu, rhuglder a hyder y rhieni yn yr iaith; cyfansoddiad ieithyddol a phatrymau ymddygiad ieithyddol y teulu; dylanwad y teulu estynedig a faint o gysylltiad a geir â'r teulu estynedig; cyfansoddiad ieithyddol y gymdogaeth a'r gymuned*)
- Beth yw effaith *Twf* ar batrymau trosglwyddo iaith o fewn teuluoedd?
- Beth yw effaith ymyriadau eraill a ariennir gan Lywodraeth Cymru sydd â'r nod o gefnogi teuluoedd i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg? [*Mae dy Gymraeg di'n Grêt*]
- Beth yw effaith y gwaith a wneir gan bartneriaid Cymraeg eraill i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd? [*Mudiad Meithrin; Mentrau Iaith; Merched y Wawr, yr Eisteddfod Genedlaethol; Urdd Gobaith Cymru; Cynlluniau Gweithredu Iaith; darpariaeth Cymraeg i Oedolion*]
- Beth yw effaith ac effaith bosibl ymyriadau'r blynyddoedd cynnar ehangach / prif ffrwd ar gyfleoedd i drosglwyddo a chynnal y defnydd o'r

Gymraeg o fewn teuluoedd? [gan gynnwys *Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, y Cyfnod Sylfaen*]

### **Methodoleg / Heriau / Problemau a Ragwelir:**

Anawsterau o ran priodoli lefelau uwch o drosglwyddo iaith neu o ddefnyddio'r iaith yn y teulu i un ymyrraeth benodol yw'r prif heriau. Mae amrywiaeth o ffactorau'n debygol o ddylanwadu ar benderfyniadau rhieni, gan gynnwys: barn y rhiant am ei allu yn yr iaith, faint o ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar sydd i'w cael, syniadau pobl am ba mor ddefnyddiol yw'r Gymraeg yn y gweithle.

Yn ogystal, ceir cysylltiadau pwysig rhwng deilliannau'r Maes Strategol hwn a deilliannau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae'r deilliannau sy'n ymwneud â mesur y galw am ddarpariaeth gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg yn arbennig o berthnasol yn hyn o beth (gweler y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg AS1.4-6). Mae'r deilliannau eraill a bennir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg hefyd yn ddibynnol, i wahanol raddau, ar ddylanwad amgylchedd y cartref a'r profiadau ieithyddol a geir yn y teulu.

### **Dulliau / Offerynnau Ymchwil:**

Bydd gwerthuso yn cynnwys cyfuniad o:

**Cyfuniadau o ddata eilaidd:** y Cyfrifiad; yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth; yr Arolwg Cenedlaethol; trywyddau ymchwilio posibl eraill - Astudiaeth Carfan y Mileniwm; yr Astudiaeth Bywyd; gwybodaeth reoli ac asesiadau effaith gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru.

**Gwerthusiadau ar lefel prosiectau.** Bydd hyn yn golygu pennu sefyllfaoedd gwrth-ffeithiol addas, er enghraifft ar sail yr ardaloedd daearyddol lle mae'r ymyriadau hyn yn cael eu gweithredu, neu wedi'u gweithredu.

**Tystiolaeth ansoddol drwy astudiaethau achos** o brofiadau gwahanol deipolegau o deuluoedd.

**Arolygon Hydredol** i ymchwilio i sut y mae ymddygiadau ieithyddol yn datblygu mewn teuluoedd, er enghraifft o fod yn blentyn i fod yn oedolyn/rhiant. Gwerthuso effaith ymyriadau penodol Cymraeg ac ymyriadau'r blynyddoedd cynnar ehangach (gan gynnwys Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen) ar drosglwyddo'r Gymraeg a chynnal y defnydd ohoni.

*Dangosyddion:*

*Dangosydd Strategaeth y Gymraeg:* Canran y plant pum mlwydd oed (ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) sy'n siarad Cymraeg gartref



*Dangosydd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Canran y dysgwyr  
Blwyddyn 2 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf) (Deilliant 1: Mwy o  
blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg).*

## 11 Maes Strategol 2: Plant a phobl ifanc

### Model Rhesymeg

| Strwythur y Prosiect  | Dangosyddion Cyflawniad  | Dulliau Gwirio  | Risgiau a Rhagdybiaethau   |
|---|--|---|--|
| <p><b>Nod:</b><br/>Plant a phobl ifanc yn defnyddio mwy o'r Gymraeg</p>   | <p>(i) <i>Gallu</i> teuluoedd yn y Gymraeg</p> <p>(ii) Y <i>defnydd</i> a wneir o'r Gymraeg</p> <p><i>Dangosydd Strategaeth y Gymraeg:</i><br/>Y nifer sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg a drefnir ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru</p> <p><i>Deilliannau 1 a 2 y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg:</i><br/>Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (1); Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd (2)</p> | <p>Y Cyfrifiad Dengmlwyddol [Cynhaliwyd y Cyfrifiad diwethaf ym mis Mawrth 2011. Cyhoeddwyd y canlyniadau cychwynnol ar 11 Rhagfyr 2012]</p> <p>Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth</p> <p>Yr Arolwg Cenedlaethol</p> <p>Yr is-ddangosyddion i gynnwys data ar bresenoldeb mewn digwyddiadau Cymraeg a drefnir ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru</p> | <p>Bod dealltwriaeth gyffredin o faint o gynnydd sydd ei angen yn y defnydd o'r Gymraeg, ac ym mha feysydd gweithgarwch (hynny yw, beth a olygir gan 'mwy')</p> <p>Bod gan blant a phobl ifanc yr ystod a'r lefel angenrheidiol o sgiliau Cymraeg a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar eu bywyd; yn cynnwys gweithredu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yn effeithiol</p> <p>Bod cynnydd mewn lefelau gallu ieithyddol yn cael ei ategu gan gynnydd yn lefel y defnydd a wneir o'r iaith</p> <p>Bod egwyddorion prif ffrydio'r Gymraeg ar draws meysydd polisi yn cael eu deall a'u gweithredu ar lefelau cenedlaethol a lleol/rhanbarthol</p> |
| <p><b>Diben:</b><br/>Sicrhau bod cysondeb a chyd-destun ar gyfer hyrwyddo trosglwyddiad yr iaith yn y cartref</p> | <p>(i) <i>Gallu</i> yn y Gymraeg</p> <p>(ii) Y <i>defnydd</i> a wneir o'r Gymraeg<br/><i>Dangosydd Strategaeth y Gymraeg:</i></p>  | <p>Y Cyfrifiad Dengmlwyddol [Cynhaliwyd y Cyfrifiad diwethaf ym mis Mawrth 2011. Cyhoeddwyd y canlyniadau cychwynnol ar 11</p>  | <p>Bod mentrau a dargedwyd yn benodol at hyrwyddo defnydd o'r iaith ymhlith plant a phobl ifanc yn cael eu cyflwyno mewn amgylchedd</p>  |

|  |  |  |   |
|--|--|--|---|
| <p>Ymestyn cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc nad ydynt yn dod i lawer o gysylltiad â'r Gymraeg yn y cartref a'r gymdogaeth agos, neu nad ydynt yn dod i gysylltiad â'r iaith o gwbl</p> <p>Sicrhau y ceir cyd-destun ystyrion ar gyfer defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i leoliadau addysg ffurfiol</p> <p>Ymestyn <i>repertoires</i> ieithyddol a sicrhau bod unigolion yn dod yn fwy rhugl drwy ddod i gysylltiad ag amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd</p> | <p>Y nifer sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg a drefnir ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru</p> <p><i>Deilliannau 1 a 2 y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg:</i><br/>Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (1);<br/>Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd (2)</p> | <p>Rhagfyr 2012]</p> <p>Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth</p> <p>Yr Arolwg Cenedlaethol</p> <p>Yr is-ddangosyddion i gynnwys data ar bresenoldeb mewn digwyddiadau Cymraeg a drefnir ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru</p> <p>Astudiaethau achos o grwpiau penodol o blant a phobl ifanc ynghyd â, lle bo hynny'n briodol, ddadansoddiadau ag iddynt thema neu gyd-destun penodol (gan gynnwys tystiolaeth ansoddol, dadansoddiadau o gynnwys a disgwrs ac astudiaethau ethnograffeg)</p> | <p>ieithyddol ehangach sy'n golygu bod cynifer o gyfleoedd â phosibl i ddod i gysylltiad â'r Gymraeg ac sy'n hyrwyddo'r broses o normaleiddio ieithyddol</p>  |
| <p><b>Canlyniadau:</b><br/>Plant a phobl ifanc yn gweld y Gymraeg fel iaith naturiol, arferol i gyfathrebu ynddi â'u cyfoedion mewn sefyllfaoedd cymdeithasol anffurfiol (gweler hefyd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Amcan Strategol 6)</p> <p>Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn yr ysgol (gweler hefyd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Amcan Strategol 6, AS6.2)</p>   | <p>(i) <i>Gallu</i> plant a phobl ifanc yn y Gymraeg</p> <p>(ii) Y <i>defnydd</i> a wneir o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc ('Cyfranogiad yn y Gymraeg')</p>   | <p>Y Cyfrifiad Dengmlwyddol [Cynhaliwyd y Cyfrifiad diwethaf ym mis Mawrth 2011. Cyhoeddwyd y canlyniadau cychwynnol ar 11 Rhagfyr 2012]</p> <p>Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth</p> <p>Yr Arolwg Cenedlaethol</p> <p>Gwerthuso mentrau ar lefel prosiect i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol</p>   | <p>Bod graddfa a chyrhaeddiad yr ymyriadau yn ddigonol i sicrhau newid</p> <p>Bod nodau ac amcanion rhaglenni gwaith partneriaid Cymraeg yn ddigon manwl a bod iddynt ddigon o ffocws</p> <p>Bod partneriaid yn cydweithio'n strategol wrth farchnata a chyfathrebu</p> |

|  |  |  |  |
|--|--|--|--|
| <p>Plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar <i>repertoires</i> ieithyddol cyfoethog ac amrywiol er mwyn rhyngweithio'n naturiol ac yn ddigymell drwy gyfrwng y Gymraeg</p> <p>Darparu cyfleoedd hamdden a chymdeithasol sy'n diwallu anghenion a dyheadau plant a phobl ifanc</p> <p>Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ym maes technoleg a'r cyfryngau bydeang</p> <p>Plant a phobl ifanc yn cyrraedd lefelau o ruglder a hyfedredd sy'n eu galluogi i weithredu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg yn y gweithle</p> |  | <p>Data ar bresenoldeb mewn digwyddiadau Cymraeg a drefnir ar gyfer plant a phobl ifanc, gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru: Mentrau Iaith, Urdd Gobaith Cymru, Ffermwyr Ifanc (Blynyddol)</p> <p>Arolwg o'r Sefydliadau sy'n Derbyn Cyllid Refeniw gan Gyngor Celfyddydau Cymru</p> <p>Data Chwaraeon Cymru ar Sesiynau Chwaraeon 5x60 (ar gael o fis Medi bob blwyddyn gan ddechrau yn 2008/09)</p> <p>Astudiaethau achos o grwpiau penodol o blant a phobl ifanc ynghyd â, lle bo hynny'n briodol, ddadansoddiadau ag iddynt thema neu gyd-destun penodol (gan gynnwys tystiolaeth ansoddol, dadansoddiadau o gynnwys a disgwrs ac astudiaethau ethnograffeg)</p> <p>Astudiaethau ansoddol ac ethnograffeg â ffocws penodol ar ganlyniadau prosiectau ac ymyriadau penodol</p> <p>Adolygu a dadansoddi mentrau a gwerthusiadau polisi Llywodraeth Cymru o ran plant a phobl ifanc</p> |  |
|--|--|--|--|

|   |   |  |   |
|---|---|--|---|
| <p><b>Gweithgareddau/Ailbynnau:</b><br/>Gwaith yn cael ei wneud gan bartneriaid Cymraeg i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol [Mentrau Iaith; Cynlluniau Gweithredu Iaith; Cynllun Hybu Ardal Aman Tawe; Urdd Gobaith Cymru; yr Eisteddfod Genedlaethol; Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru; Gwallgofiaid; Merched y Wawr; Gwobr Dug Caeredin; Prosiect Cefnogi Arferion Iaith Pobl Ifanc; y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig; Cerdd Cymunedol Cymru]</p> <p>Prif ffrydio anghenion iaith Gymraeg wrth gynllunio a chyflenwi Gwasanaethau Ieuencid a Gwasanaethau Hamdden</p> | <p>Tystiolaeth o roi prosiectau ac ymyriadau penodol ar waith i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc</p> <p>Tystiolaeth o waith a wneir i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc fel rhan o raglenni gwaith ehangach sefydliadau sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg</p> <p>Blaenoriaethau o ran y Gymraeg yn cael eu cynnwys mewn mentrau a gwerthusiadau polisi penodol ehangach (nad ydynt yn benodol Gymraeg)</p> | <p>Gwerthuso mentrau ar lefel prosiectau i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol</p> <p>Data rheoli ar brosiectau unigol</p> <p>Adroddiadau ariannol ar gyflawni prosiectau</p> <p>Data ar bresenoldeb mewn digwyddiadau Cymraeg a drefnir ar gyfer plant a phobl ifanc, gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru: Mentrau Iaith, Urdd Gobaith Cymru, Ffermwyr Ifanc (Blynyddol)</p> <p>Arolwg o'r Sefydliadau sy'n Derbyn Cyllid Refeniw gan Gyngor Celfyddydau Cymru</p> <p>Data Chwaraeon Cymru ar Sesiynau Chwaraeon 5x60 (ar gael o fis Medi bob blwyddyn gan ddechrau yn 2008/09)</p> <p>Astudiaethau ansoddol ac ethnograffeg â ffocws penodol ar ganlyniadau prosiectau ac ymyriadau penodol</p> <p>Adolygu a dadansoddi mentrau a gwerthusiadau polisi Llywodraeth Cymru o ran plant a phobl ifanc</p> | <p>Bod cymorth grant yn dal i gael ei roi i sefydliadau ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg</p> |
|---|---|--|---|

## Maes Strategol 2: Plant a phobl ifanc

### Cwestiynau, Dulliau ac Offerynnau Ymchwil

#### Y Prif Gwestiynau Ymchwil:

- Beth yw'r prif ffactorau sy'n pennu lefelau o ddefnydd iaith ymhlith plant a phobl ifanc? (*i'w hystyried: arferion ieithyddol yn y cartref, rhuglder, gallu a syniad yr unigolyn am ei allu*)
- I ba raddau y mae rhuglder a hyder yn yr iaith yn dylanwadu ar y defnydd ohoni?
- I ba raddau y mae cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd â'r nod o hybu defnydd o'r Gymraeg yn ysgogi patrymau o ddefnyddio'r iaith sy'n parhau i'r dyfodol?
- A yw ymyriadau presennol sydd â'r nod o hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn cyrraedd eu holl grwpiau targed?

#### Themâu:

- Y berthynas rhwng gallu ieithyddol a'r defnydd a wneir o'r iaith
- Sefydliadu adfywio'r iaith: y defnydd academaidd/ffurfiol o'r Gymraeg o'i gymharu â'r defnydd anffurfiol
- Ymddygiadau ieithyddol a rhwydweithiau cymdeithasol
- Iaith a thechnoleg

#### Cwestiynau Ymchwil Penodol:

- I ba raddau y mae lefelau gallu a rhuglder yn y Gymraeg yn dylanwadu ar barodrwydd pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg (a hefyd ganfyddiad yr unigolyn am ei sgiliau ieithyddol)?
- A yw ymyriadau presennol wedi'u teilwra'n ddigonol i ddiwallu anghenion rhannau penodol o'r boblogaeth darged? (*i'w hystyried er enghraifft: lefelau amrywiol o allu/hyder ieithyddol; amrywiaeth y diddordebau y darperir ar eu cyfer*). A oes angen ymyriadau amgen/ychwanegol er mwyn cynnwys grwpiau sy'n anoddach i'w cyrraedd?
- Sut y mae lefelau o ran cymryd rhan a phatrymau ymddygiad yn amrywio yn ôl cerrig milltir allweddol/cyfnodau o newid ym mywydau plant a phobl ifanc, a pha strategaethau sydd eu hangen i ymgorffori'r amrywiadau hyn?
- A yw'r cyfnodau hyn o newid yn cael eu hadlewyrchu'n effeithiol yn y berthynas rhwng Strategaeth y Gymraeg a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg?
- Beth yw effaith y gwaith a wneir gan bartneriaid Cymraeg i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol? [*Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru; Mentrau Iaith;*

## **Methodoleg / Heriau / Problemau a Ragwelir:**

Priodoli ymddygiad ieithyddol i un set benodol o amodau yw'r brif her. Mae amrywiaeth o ffactorau'n debygol o ddylanwadu ar ddefnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg, gan gynnwys sgiliau iaith ac agweddau tuag at yr iaith a feithrinir yn y cartref, dyhead i gydymffurfio â'r gwerthoedd hyn ar gerrig milltir / cyfnodau o newid allweddol, neu i adweithio yn eu herbyn; gallu ieithyddol, syniadau'r unigolyn am ei allu, ei ruglder a'i hyder, pwysau gan gyfoedion a dylanwad rhwydweithiau cymdeithasol.

## **Dulliau / Offerynnau Ymchwil:**

Bydd gwerthuso yn cynnwys cyfuniad o:

**Cyfuniadau o ddata eilaidd:** y Cyfrifiad; yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth; yr Arolwg Cenedlaethol; trywyddau ymchwilio posibl eraill - Astudiaeth Carfan y Mileniwm; yr Astudiaeth Bywyd; gwybodaeth reoli ac asesiadau effaith gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru.

**Gwerthusiadau ar lefel prosiectau.** Bydd hyn yn golygu pennu sefyllfaoedd gwrth-ffeithiol addas, er enghraifft ar sail yr ardaloedd daearyddol lle mae'r ymyriadau hyn yn cael eu gweithredu, neu wedi'u gweithredu.

**Tystiolaeth ansoddol drwy astudiaethau achos** o brofiadau gwahanol rwydweithiau cymdeithasol a theipolegau o deuluoedd. Astudiaethau penodol i ardal a phenodol i oed.

## **Dangosyddion:**

**Dangosydd Strategaeth y Gymraeg:** Y nifer sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg a drefnir ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru.

**Dangosydd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg:** Canran y dysgwyr Blwyddyn 2 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf) (Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg); Canran y dysgwyr Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf) (Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd).

## 12 Maes Strategol 3: Y Gymuned

### Model Rhesymeg

| Strwythur y Prosiect  | Dangosyddion Cyflawniad  | Dulliau Gwirio   | Risgiau a Rhagdybiaethau  |
|---|--|--|---|
| <p><b>Nod:</b><br/>Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau ar draws Cymru</p> | <p>(i) <i>Gallu</i> yn y Gymraeg</p> <p>(ii) Y <i>defnydd</i> a wneir o'r Gymraeg<br/><i>Dangosydd Strategaeth y Gymraeg:</i><br/>Y nifer sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg, gan gynnwys rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru</p> | <p>Y Cyfrifiad Dengmlwyddol [Cynhaliwyd y Cyfrifiad diwethaf ym mis Mawrth 2011. Cyhoeddwyd y canlyniadau cychwynnol ar 11 Rhagfyr 2012]</p> <p>Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth</p> <p>Yr Arolwg Cenedlaethol</p> <p>Yr is-ddangosyddion i gynnwys data ar bresenoldeb mewn digwyddiadau Cymraeg, gan gynnwys y rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru</p> | <p>Bod dealltwriaeth gyffredin o faint o gynnydd sydd ei angen yn y defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gymunedau (a gwahanol fathau o gymunedau) ar draws Cymru (hynny yw, beth a olygir gan 'mwy')</p> <p>Bod gan siaradwyr yr ystod a'r lefel angenrheidiol o sgiliau Cymraeg a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywyd; yn cynnwys gweithredu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yn effeithiol</p> <p>Bod cynnydd mewn lefelau gallu ieithyddol yn cael ei ategu gan gynnydd yn lefel y defnydd a wneir o'r iaith</p> <p>Bod mesurau cynllunio ieithyddol yn ddigon cadarn i wrthsefyll tueddiadau demograffig ehangach (gan gynnwys patrymau mudo), ffactorau economaidd a chymdeithasol (gan gynnwys cyflogaeth)</p> <p>Bod egwyddorion prif ffrydio'r Gymraeg ar draws meysydd polisi yn</p> |



|  |  |   |   |
|--|--|---|---|
|  |  |   | cael eu deall a'u gweithredu ar lefelau cenedlaethol a lleol/rhanbarthol  |
| <p><b>Diben:</b><br/>Sicrhau bod dilyniant a chyd-destun ar gyfer hyrwyddo <i>trosglwyddiad</i> yr iaith yn y cartref</p> <p>Sicrhau y ceir cyd-destun ystyrion ar gyfer defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i leoliadau addysg ffurfiol</p> <p>Creu cyd-destunau bywiog ar gyfer normaleiddio'r Gymraeg</p> <p>Ymestyn <i>repertoires</i> ieithyddol a sicrhau bod unigolion yn dod yn fwy rhugl drwy ddod i gysylltiad ag amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd</p> | <p>(i) <i>Gallu</i> yn y Gymraeg</p> <p>(ii) Y <i>defnydd</i> a wneir o'r Gymraeg <i>Dangosydd Strategaeth y Gymraeg</i>: Y nifer sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg, gan gynnwys y rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru</p> | <p>Y Cyfrifiad Dengmlwyddol [Cynhaliwyd y Cyfrifiad diwethaf ym mis Mawrth 2011. Cyhoeddwyd y canlyniadau cychwynnol ar 11 Rhagfyr 2012]</p> <p>Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth</p> <p>Yr Arolwg Cenedlaethol</p> <p>Yr is-ddangosyddion i gynnwys data ar bresenoldeb mewn digwyddiadau Cymraeg, gan gynnwys y rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru</p> <p>Astudiaethau achos o grwpiau penodol o siaradwyr ynghyd â, lle bo hynny'n briodol, ddadansoddiadau ag iddynt thema neu gyd-destun penodol (gan gynnwys tystiolaeth ansoddol, dadansoddiadau o gynnwys a disgwrs ac astudiaethau ethnograffeg)</p> | <p>Bod mentrau a dargedwyd yn benodol at hyrwyddo'r defnydd o'r iaith yn y gymuned yn cael eu cyflwyno mewn amgylchedd ieithyddol ehangach sy'n golygu bod cynifer o gyfleoedd â phosibl i ddod i gysylltiad â'r Gymraeg, ac sy'n hyrwyddo'r broses o normaleiddio ieithyddol</p> |
| <p><b>Canlyniadau:</b><br/>Cynnal, ac adfywio ymhellach, gymunedau lle mae'r Gymraeg yn brif iaith bywyd bob dydd (gweler hefyd Amcan Strategol 6 y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg)</p> <p>Cynnydd yn nifer y gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol lle mae'r</p>   | <p>(i) <i>Gallu</i> plant a phobl ifanc yn y Gymraeg</p> <p>(ii) Y <i>defnydd</i> a wneir o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc</p>  | <p>Y Cyfrifiad Dengmlwyddol [Cynhaliwyd y Cyfrifiad diwethaf ym mis Mawrth 2011. Cyhoeddwyd y canlyniadau cychwynnol ar 11 Rhagfyr 2012]</p> <p>Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth</p> <p>Yr Arolwg Cenedlaethol</p>  | <p>Bod graddfa a chyrhaeddiad yr ymyriadau yn ddigonol i sicrhau newid</p> <p>Bod nodau ac amcanion rhaglenni gwaith partneriaid Cymraeg yn ddigon manwl a bod iddynt ddigon o ffocws</p> <p>Bod partneriaid yn cydweithio'n</p>  |

|   |  |   |   |
|---|--|---|---|
| <p>Gymraeg yn iaith gyfathrebu arferol</p> <p>Atal a gwrthdroi'r newid ieithyddol mewn cymunedau lle nad y Gymraeg yw prif iaith bywyd bob dydd bellach</p> <p>Mwy o weithgareddau cymdeithasol a diwylliannol ar gael, a'r rheini wedi'u hanelu'n benodol at hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg</p> <p>Ystyried cynnal ac adfywio iaith fel rhan hanfodol o gynllunio ac adfywio cymunedol ac economaidd</p> <p>Cynnwys cynaliadwyedd y Gymraeg mewn polisiau ehangach i gefnogi datblygu tir yn gynaliadwy</p> <p>Grymuso cymunedau i gymryd cyfrifoldeb am adfywio iaith a chymuned</p> <p>Creu a datblygu cymunedau iaith bywiog mewn lleoliadau trefol</p> <p>Defnyddio technoleg yn greadigol ac yn arloesol i ddatblygu cymunedau iaith newydd yn y rhithfyd</p> |  | <p>Yr is-ddangosyddion i gynnwys data ar bresenoldeb mewn digwyddiadau Cymraeg, gan gynnwys y rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru Gwerthuso mentrau ar lefel prosiectau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau</p> <p>Data ar bresenoldeb mewn digwyddiadau Cymraeg, gan gynnwys y rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru: yr Eisteddfod Genedlaethol, Mentrau Iaith, Merched y Wawr (Blynyddol)</p> <p>Arolwg o'r Sefydliadau sy'n Derbyn Cyllid Refeniw gan Gyngor Celfyddydau Cymru</p> <p>Astudiaethau achos o grwpiau penodol o siaradwyr ynghyd â, lle bo hynny'n briodol, ddadansoddiadau ag iddynt thema neu gyd-destun penodol (gan gynnwys tystiolaeth ansoddol, dadansoddiadau o gynnwys a disgwrs ac astudiaethau ethnograffeg)</p> <p>Astudiaethau ansoddol ac ethnograffeg â ffocws penodol ar ganlyniadau prosiectau ac ymyriadau penodol</p> <p>Adolygu a dadansoddi mentrau a gwerthusiadau polisi Llywodraeth</p> | <p>strategol wrth farchnata a chyfathrebu</p> |
|---|--|---|---|

|   |  |   |   |
|---|--|---|---|
| <p><b>Gweithgareddau/Ailbynnau:</b><br/> Mentrau i hyrwyddo bywiogrwydd y Gymraeg ar lefel gymunedol:<br/> Mentrau Iaith; Cynlluniau Gweithredu Iaith; Cynllun Hybu Ardal Aman Tawe; Urdd Gobaith Cymru; yr Eisteddfod Genedlaethol;<br/> Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru; Gwallgofiaid; Merched y Wawr; Gwobr Dug Caeredin;<br/> Prosiect Cefnogi Arferion Iaith Pobl Ifanc; y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig; Cerdd Cymunedol Cymru; Hunaniaith; Papurau Bro; Dyffryn Nantlle 2020; Cynlluniau Datblygu Lleol a <i>Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg (TAN 20)</i></p> | <p>Tystiolaeth o roi prosiectau ac ymyriadau penodol ar waith i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau</p> <p>Blaenoriaethau o ran y Gymraeg yn cael eu cynnwys mewn mentrau a gwerthusiadau polisi penodol ehangach (nad ydynt yn benodol Gymraeg)</p> | <p><b>Cymru o ran y gymuned</b></p> <p>Data rheoli ar brosiectau unigol Adroddiadau ariannol ar gyflenwi prosiectau</p> <p>Data ar bresenoldeb mewn digwyddiadau Cymraeg, gan gynnwys y rheini a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru: yr Eisteddfod Genedlaethol, Mentrau Iaith, Merched y Wawr (Blynyddol)</p> <p>Arolwg o'r Sefydliadau sy'n Derbyn Cyllid Refeniw gan Gyngor Celfyddydau Cymru</p> <p>Astudiaethau ansoddol ac ethnograffeg â ffocws penodol ar ganlyniadau prosiectau ac ymyriadau penodol</p> | <p>Bod cymorth grant yn dal i gael ei roi i sefydliadau ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg</p> |
|---|--|---|---|

## Maes Strategol 3: Y Gymuned

### Cwestiynau, Dulliau ac Offerynnau Ymchwil

#### Y Prif Gwestiynau Ymchwil:

- Beth yw'r priodweddau sy'n diffinio amrywiaeth o deipolegau o gymunedau o ran eu gallu i fodoli fel unedau Cymraeg cynaliadwy? (*i'w hystyried: proffiliau ieithyddol y siaradwyr; 'màs critigol' o siaradwyr; tueddiadau demograffig – mudo, symudedd; hunaniaeth drefol / wledig; cyfeirbwyntiau diwylliannol*)
- Beth yw'r priodweddau sy'n diffinio amrywiaeth o deipolegau o gymunedau o ran eu gallu i integreiddio siaradwyr Cymraeg a'r rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg? (*i'w hystyried: proffiliau ieithyddol y siaradwyr; 'màs critigol' o siaradwyr; tueddiadau demograffig – mudo, symudedd, hunaniaeth drefol / wledig; cyfeirbwyntiau diwylliannol*)
- Beth yw'r 'pwyntiau tyngedfennol' sy'n hybu newid ieithyddol o fewn gwahanol deipolegau o gymunedau?
- Sut ac i ba raddau y mae cymunedau yn effeithio ar batrymau o ddefnydd iaith o fewn teuluoedd (gan gynnwys trosglwyddo iaith)?
- A yw ymyriadau presennol sydd â'r nod o hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau a rhwydweithiau yn ysgogi patrymau o ymddygiad ieithyddol sy'n parhau i'r dyfodol?
- A yw agwedd Llywodraeth Cymru tuag at ddatblygu cymunedau'n gynaliadwy, fel yr amlinellir yn Strategaeth y Gymraeg, yn rhoi'r hwb sydd ei angen er mwyn newid bywiogrwydd ieithyddol y cymunedau?
- I ba raddau y mae patrymau newydd o ymddygiad ieithyddol mewn lleoliadau trefol a chymunedau yn y rhithfyd yn ysgogi newid mewn meysydd megis trosglwyddo iaith, cynnydd yn y galw am wasanaethau Cymraeg, ac iaith a thechnoleg?
- I ba raddau y mae'r Safonau Hybu, o dan Fesur y Gymraeg, yn arwain at fwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau ledled Cymru?

#### Themâu:

- Cymunedau iaith cynaliadwy
- Adfywio cymunedol ac economaidd
- Defnydd o iaith a rhwydweithiau cymdeithasol
- Defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau gwledig a threfol
- Cymunedau iaith yn y rhithfyd

## Cwestiynau Ymchwil Penodol:

- Beth sy'n gwneud rhai cymunedau'n fwy cydnerth yn ieithyddol, neu'n fwy galluog i wrthsefyll newid nag eraill?
- Beth yw effaith y gwaith a wneir gan bartneriaid Cymraeg i hyrwyddo bywiogrwydd y Gymraeg ar lefel gymunedol? [*Cynllun Hybu Ardal Aman Tawe; Mentrau Iaith; Cynlluniau Gweithredu Iaith; Dyffryn Nantlle 2020; Merched y Wawr, Papurau Bro*]
- Beth yw effaith gronol amryfal ymyriadau mewn cymunedau penodol? (e.e. *Twf, Mentrau Iaith, mentrau i gynyddu lefelau o gysondeb mewn addysg cyfrwng Cymraeg, ffocws penodol ar ddatblygu sgiliau iaith yn y gweithle*)
- Sut ac i ba raddau y mae agweddau siaradwyr Cymraeg tuag at y rheini sy'n dysgu Cymraeg yn cael effaith ar integreiddio siaradwyr Cymraeg newydd mewn cymunedau?
- A yw'r lefelau cyfredol o waith partneriaeth ar draws awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector ac asiantaethau lleol yn rhoi sail gadarn ar gyfer adfywio a chynnal yr iaith?
- I ba raddau y mae polisiâu cynllunio a thai yn dylanwadu ar hyfywedd y Gymraeg mewn cymunedau?
- I ba raddau y mae anghenion sy'n dod i'r amlwg ymhlith cymunedau iaith 'newydd' yn cael eu diwallu? (*i'w hystyried: dulliau cefnogi amgen yn hytrach na rhwydweithiau cymdogaethau confensiynol o siaradwyr Cymraeg; yr angen am weithgaredd ieithyddol cymdeithasol anffurfiol a arweinir gan y gymuned i gyd-fynd â'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg*)

## Methodoleg / Heriau / Problemau a Ragwelir:

Fel ym Meysydd Strategol 1 a 2, yr anhawster o ran priodoli ymddygiadau ieithyddol i un set o amodau sy'n achosi'r rhan fwyaf o heriau. Mae'r Maes Strategol hwn yn rhoi cyfleoedd i ymchwilio'n fanwl i effaith polisiâu cynllunio ac adfywio cymunedol ehangach ar fywiogrwydd y Gymraeg.

## Dulliau / Offerynnau Ymchwil:

Bydd gwerthuso yn cynnwys cyfuniad o:

**Cyfuniadau o ddata eilaidd:** y Cyfrifiad; yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth; Arolwg Cenedlaethol; Arolygon Defnydd o'r Gymraeg; Adroddiadau Blynyddol y Comisiynydd Iaith ar y Safonau Hybu; gwybodaeth reoli ac asesiadau effaith gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru.

***Gwerthusiadau ar lefel prosiectau.*** Bydd hyn yn golygu pennu sefyllfaoedd gwrth-ffeithiol addas, er enghraifft ar sail yr ardaloedd daearyddol lle mae'r ymyriadau hyn yn cael eu gweithredu, neu wedi'u gweithredu.

***Tystiolaeth ansoddol drwy astudiaethau achos*** o astudiaethau penodol i ardal a phenodol i grŵp (er enghraifft, cyd-destunau trefol a chymunedau yn y rhithfyd; cymunedau â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg ac allfudo).

*Dangosyddion:*

*Dangosydd Strategaeth y Gymraeg:* Y nifer sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg, gan gynnwys y rhai a drefnir gan y sawl sy'n derbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru.

## 13 Maes Strategol 4: Y Gweithle

### Model Rhesymeg

| Strwythur y Prosiect  | Dangosyddion Cyflawniad   | Dulliau Gwirio   | Risgiau a Rhagdybiaethau  |
|---|---|--|---|
| <p><b>Nod:</b><br/>Mwy o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith</p>  | <p><i>Dangosyddion Strategaeth y Gymraeg:</i><br/>(i) Nifer y cyrff y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â safonau gweithredu yn ymwneud â'r Gymraeg sy'n ceisio hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle<br/><br/>(ii) Canran staff Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith</p> | <p>Adroddiadau Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar weithredu'r Safonau Gweithredu<br/><br/>Adroddiadau Blynyddol ac Adroddiadau Pum Mlynedd Comisiynydd y Gymraeg [yr Adroddiad Pum Mlynedd cyntaf i'w gyhoeddi yn 2015]<br/><br/>Arolwg Staff Blynyddol Llywodraeth Cymru</p>  | <p>Bod dealltwriaeth gyffredin o faint o gynnydd sydd ei angen er mwyn sicrhau newid (hynny yw, beth a olygir gan 'mwy')</p> <p>Bod mentrau sydd wedi'u targedu'n benodol at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn cael eu hategu gan waith i weithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn effeithiol (hynny yw, bod gan y gweithlu yr ystod a'r lefel angenrheidiol o sgiliau Cymraeg)</p> |
| <p><b>Diben:</b><br/>Sicrhau bod dilyniant a chyd-destun ar gyfer caffael sgiliau Cymraeg a'u datblygu mewn addysg a hyfforddiant<br/><br/>Normaleiddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau ffurfiol, proffesiynol a galwedigaethol</p> | <p><i>Dangosyddion Strategaeth y Gymraeg:</i><br/>(i) Nifer y cyrff y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â Safonau Gweithredu yn ymwneud â'r Gymraeg sy'n ceisio hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle<br/><br/>(ii) Canran staff Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith</p> | <p>Adroddiadau Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar weithredu'r Safonau Gweithredu<br/><br/>Adroddiadau Blynyddol ac Adroddiadau Pum Mlynedd Comisiynydd y Gymraeg [yr Adroddiad Pum Mlynedd cyntaf i'w gyhoeddi yn 2015]<br/><br/>Arolwg Staff Blynyddol Llywodraeth Cymru<br/><br/>Astudiaethau achos a dadansoddiadau o grwpiau penodol</p> | <p>Bod mentrau a dargedwyd yn benodol at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn cael eu cyflwyno mewn amgylchedd ieithyddol ehangach sy'n golygu bod cynifer o gyfleoedd â phosibl i ddod i gysylltiad â'r Gymraeg, ac sy'n hybu'r broses o normaleiddio ieithyddol</p>   |

|  |  |  |   |
|--|--|--|---|
|  |  | a sefyllfaoedd penodol i waith, gan gynnwys tystiolaeth ansoddol, dadansoddiadau o gynnwys a disgwrs ac astudiaethau ethnograffeg  |   |
| <p><b>Canlyniadau:</b><br/>Prif ffrydio'r polisi Cymraeg yn y Gweithle ar draws Llywodraeth Cymru</p> <p>Cydymffurfio â Safonau Gweithredu o dan Fesur y Gymraeg 2011</p> <p>Y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n gynyddol fel iaith gweinyddu a chyfathrebu mewnol</p> <p>Mabwysiadu dull â mwy o bwyslais ar ddarparu'r sgiliau gofynnol yn y Gymraeg</p> <p>Mwy o hyder a pharodrwydd i ddefnyddio sgiliau</p> <p>Creu diwylliant o fewn sefydliad sy'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gwaith</p> <p>Dulliau gwell o nodi a mynegi'r angen am sgiliau penodol yn y Gymraeg (gweler hefyd Amcan Strategol 3 y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, AS3.7 ac 8)</p> <p>Gwerth ychwanegol i'r Gymraeg fel sgil yn y sectorau addysg a hyfforddiant</p> | <p><i>Dangosyddion Strategaeth y Gymraeg:</i></p> <p>(i) Nifer y cyrff y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â Safonau Gweithredu yn ymwneud â'r Gymraeg sy'n ceisio hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle</p> <p>(ii) Canran staff Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith</p> | <p>Adroddiadau Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar weithredu'r Safonau Gweithredu</p> <p>Adroddiadau Blynyddol ac Adroddiadau Pum Mlynedd Comisiynydd y Gymraeg [yr Adroddiad Pum Mlynedd cyntaf i'w gyhoeddi yn 2015]</p> <p>Arolwg Staff Blynyddol Llywodraeth Cymru</p> <p>Arolwg o Sgiliau Cymraeg - Gwybodaeth am y Farchnad Lafur [yr arolwg i gael ei gynnal yn y Gwanwyn 2013]</p> <p>Astudiaethau achos a dadansoddiadau o grwpiau penodol a sefyllfaoedd penodol i waith, gan gynnwys tystiolaeth ansoddol, dadansoddiadau o gynnwys a disgwrs ac astudiaethau ethnograffeg</p> | <p>Bod graddfa a chyrhaeddiad yr ymyriadau yn ddigonol i sicrhau newid</p> <p>Gweithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg</p> |



|   |   |  |  |
|---|---|--|--|
| <p>Dylanwad cadarnhaol ar ddefnydd y gweithwyr o'r Gymraeg mewn rhannau eraill o'u bywydau</p>  |   |  |  |
| <p><b>Gweithgareddau/Allbynnau:</b><br/>Gweithredu Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer prif ffrydio'r Gymraeg yn y gweithle; Gweithredu'r Safonau Gweithredu [Mesur y Gymraeg 2011]; Casglu a dadansoddi data ar anghenion sgiliau Cymraeg yn y gweithle</p> | <p>Tystiolaeth o roi prosiectau ac ymyriadau penodol ar waith i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle</p> | <p>Adroddiadau Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar weithredu'r Safonau Gweithredu</p> <p>Adroddiadau Blynyddol ac Adroddiadau Pum Mlynedd i Gomisiynydd y Gymraeg [yr Adroddiad Pum Mlynedd cyntaf i'w gyhoeddi yn 2015]</p> <p>Arolwg Staff Blynyddol Llywodraeth Cymru</p> <p>Astudiaethau achos a dadansoddiadau o grwpiau penodol a sefyllfaoedd penodol i waith, gan gynnwys tystiolaeth ansoddol, dadansoddiadau o gynnwys a disgwrs ac astudiaethau ethnograffeg</p> | <p>Prif ffrydio polisi'r Gymraeg yn y Gweithle ar draws Llywodraeth Cymru</p> <p>Gweithredu Mesur y Gymraeg 2011</p> |

## Maes Strategol 4: Y Gweithle

### Cwestiynau, Dulliau ac Offerynnau Ymchwil

#### Y Prif Gwestiynau Ymchwil:

- A yw'r wybodaeth bresennol am y farchnad lafur yn rhoi digon o fanylion am y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen yn y gweithle?
- A yw'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn cynnig dull digon cadarn o lenwi'r bylchau mewn sgiliau drwy addysg a hyfforddiant?
- I ba raddau y mae'r Safonau Gweithredu, o dan Fesur y Gymraeg 2011, yn arwain at fwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?
- A yw Llywodraeth Cymru yn rhoi'r arweiniad a'r model disgwylidig o arfer da i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?

#### Themâu:

- Iaith yn y gwaith / iaith y gwaith
- Nodi a mynegi anghenion sgiliau
- Gwerthoedd ac arweinyddiaeth gorfforaethol
- Iaith gwaith / iaith cyflenwi gwasanaethau

#### Cwestiynau Ymchwil Penodol:

- Sut y mae gweithwyr yn dehongli ac yn mynegi eu gofynion o ran sgiliau Cymraeg: a oes deialog effeithiol rhwng cyflogwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant am y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen yn y gweithle?
- A yw'r dulliau a ddefnyddir gan gyflogwyr i gofnodi a diweddarau'r wybodaeth am sgiliau gweithwyr yn y Gymraeg yn sylfaen gadarn ar gyfer cynllunio strategol?
- Ar sail ein dealltwriaeth bresennol o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y defnydd o'r Gymraeg fel iaith gwaith, a yw'n bosibl nodi teipolegau neu gyfres o amodau sy'n fwyaf tebygol o gynyddu neu gynnal y defnydd o'r Gymraeg?
- Pa ddulliau y gellid eu datblygu i roi disgrifiad ystyrion o'r defnydd o'r iaith yn y gweithle (pa mor aml y caiff y Gymraeg ei defnyddio, i ba ddiben, ym mha gyd-destunau)?
- Sut ac i ba raddau y mae arferion y Gymraeg yn y gweithle yn dylanwadu ar ymddygiadau ac ymagweddau mewn rhannau eraill o fywyd (er enghraifft, trosglwyddo'r Gymraeg yn y teulu, cefnogaeth i addysg cyfrwng Cymraeg, cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg), ac yn cael eu dylanwadu gan yr ymddygiadau ac ymagweddau hynny?

- Sut y mae gweithwyr a chyflogwyr yn dehongli'r cysylltiad rhwng defnyddio'r Gymraeg fel iaith gwaith a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg?

### **Methodoleg / Heriau / Problemau a Ragwelir:**

Mae rhai agweddau ar y Maes Strategol hwn yn cael eu hategu gan ddata meintiol sydd eisoes ar gael (sgiliau Cymraeg). Mae data ar y defnydd o iaith (i ba raddau y defnyddir y Gymraeg, ym mha gyd-destunau ac o dan ba amodau) yn fwy cyfyngedig. Mae cymunedau iaith eraill (er enghraifft, Cymuned Ymreolaethol Gwlad y Basg, Catalonia, Canada) yn cofnodi'r defnydd a wneir o iaith yn y gweithle yn rheolaidd, a dylid mynd ati i fabwysiadu dulliau tebyg yng Nghymru. Cydnabyddir hefyd, fodd bynnag, nad yw'n bosibl dal, mewn arolygon meintiol ar raddfa fawr, yr amodau sy'n rheoli ymddygiad unigolion neu grwpiau bach mewn amgylchiadau penodol. Mae angen ystyried cynnal dadansoddiadau ar lefel ficro hefyd o ddeinameg gweithleoedd dwyieithog / Cymraeg ac edrych ar effaith amgylchiadau unigolion ar eu hymddygiad ieithyddol (ffactorau fel hyder ieithyddol, agweddau at yr iaith, uchelgeisiau proffesiynol, arweiniad ac ati).

### **Dulliau / Offerynnau Ymchwil:**

Bydd gwerthuso yn cynnwys cyfuniad o:

***Cyfuniadau o ddata eilaidd:*** y Cyfrifiad; yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth; Arolwg Cenedlaethol; Arolwg Agweddau Cyflogwyr; Arolwg Sgiliau Cyflogwyr; Prosiect Gwybodaeth am y Farchnad Lafur a Phrosiect Anghenion Sgiliau Cymraeg Gwybodaeth am y Farchnad Lafur; Adroddiadau Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar y Safonau Gweithredu.

Nodi cwestiynau ychwanegol posibl i arolygon sydd eisoes wedi'u sefydlu, neu wella'r dull o ddadansoddi'r data sydd ar gael. Yn cynnwys ystyried model Arolwg Gweithwyr Gwasanaethau Cyhoeddus Canada (PSES).

Datblygu dulliau systematig o ddisgrifio'r defnydd o iaith, gan ddefnyddio'r dulliau sy'n cael eu defnyddio mewn cymunedau iaith eraill lle y bo'n briodol, gyda'r bwriad o ddatblygu cyfres o ddangosyddion Cymraeg yn y gweithle.

Tystiolaeth ansoddol o'r ddeinameg ieithyddol rhwng unigolion drwy werthusiadau meicro o ymddygiadau unigolion a grwpiau mewn sefyllfaoedd penodol yn y gweithle.

### ***Dangosyddion:***

***Dangosyddion Strategaeth y Gymraeg:*** Nifer y cyrff y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â safonau gweithredu yn ymwneud â'r Gymraeg sy'n ceisio hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle; Canran staff Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.

## 14 Maes Strategol 5: Gwasanaethau Cymraeg

### Model Rhesymeg

| Strwythur y Prosiect  | Dangosyddion Cyflawniad  | Dulliau Gwirio  | Risgiau a Rhagdybiaethau  |
|---|--|---|---|
| <p><b>Nod:</b><br/>Mwy o wasanaethau Cymraeg o safon uchel ar gael i'r cyhoedd a mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r gwasanaethau hynny</p>   | <p><i>Dangosyddion Strategaeth y Gymraeg:</i><br/>(i) Y defnydd o wahanol wasanaethau a ddarperir yn Gymraeg<br/>(ii) Nifer y cynlluniau neu bolisiau iaith Gymraeg<br/>(iii) Nifer y cyrff y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â safonau yn ymwneud â'r Gymraeg</p> | <p>Adroddiadau Blynyddol ar Gynlluniau Iaith Gymraeg</p> <p>Adroddiadau Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar weithredu Safonau'r Gymraeg</p> <p>Adroddiadau Blynyddol ac Adroddiadau Pum Mlynedd Comisiynydd y Gymraeg [yr Adroddiad Pum Mlynedd cyntaf i'w gyhoeddi yn 2015]</p> <p>Data gwasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys y DVLA, Gwasanaeth Iechyd Gwladol, ac ymatebion i arolygon swyddogol y Llywodraeth)</p> | <p>Bod dealltwriaeth gyffredin o faint o gynnydd sydd ei angen er mwyn sicrhau newid (hynny yw, beth a olygir gan 'mwy')</p> <p>Bod mentrau a dargedwyd yn benodol at gynyddu'r gwasanaethau Cymraeg sydd i'w cael, a'r defnydd a wneir ohonynt, yn cael eu hategu gan fesurau effeithiol i ddatblygu sgiliau Cymraeg darparwyr gwasanaethau (hynny yw, bod gan y gweithlu yr ystod a'r lefel angenrheidiol o sgiliau Cymraeg - yn cynnwys gweithredu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yn effeithiol)</p> |
| <p><b>Diben:</b><br/>Galluogi defnyddwyr gwasanaethau i elwa ar wasanaethau yn eu dewis iaith, a hynny fel mater o drefn</p> <p>Sicrhau bod cyd-destun ystyrion ac ymdeimlad o bwrpas ar gyfer caffael sgiliau Cymraeg drwy addysg a hyfforddiant</p> | <p><i>Dangosyddion Strategaeth y Gymraeg:</i><br/>(i) Y defnydd o wahanol wasanaethau a ddarperir yn Gymraeg<br/>(ii) Nifer y cynlluniau neu bolisiau iaith Gymraeg<br/>(iii) Nifer y cyrff y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â safonau yn ymwneud â'r Gymraeg</p> | <p>Adroddiadau Blynyddol ar Gynlluniau Iaith Gymraeg</p> <p>Adroddiadau Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar weithredu Safonau'r Gymraeg</p> <p>Adroddiadau Blynyddol ac Adroddiadau Pum Mlynedd Comisiynydd y Gymraeg [yr</p>  | <p>Bod mentrau a dargedwyd yn benodol at gynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg yn cael eu cyflwyno mewn amgylchedd ieithyddol ehangach sy'n golygu bod cynifer o gyfleoedd â phosibl i ddod i gysylltiad â'r Gymraeg, ac sy'n hybu'r broses o normaleiddio ieithyddol</p>   |

|   |  |   |   |
|---|--|---|---|
| <p>Datblygu sylfaen sgiliau'r gweithlu a hyrwyddo datblygiad proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg</p>  |  | <p>Adroddiad Pum Mlynedd cyntaf i'w gyhoeddi yn 2015]</p> <p>Astudiaethau achos a dadansoddiadau o grwpiau penodol a defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys tystiolaeth ansoddol, dadansoddiadau o gynnwys a disgwrs ac astudiaethau ethnograffeg</p>   |   |
| <p><b>Canlyniadau:</b><br/> Normaleiddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg</p> <p>Mwy o hyder ymhlith siaradwyr rhugl a llai rhugl i ddefnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg</p> <p>Darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn cael ei ystyried yn rhan annatod o wasanaethau comisiynu a chaffael</p> <p>Trafodaethau effeithiol rhwng darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei blaenoriaethu yn unol ag anghenion Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg 2011</p> | <p><i>Dangosyddion Strategaeth y Gymraeg</i><br/> (i) Y defnydd o wahanol wasanaethau a ddarperir yn Gymraeg<br/> (ii) Nifer y cynlluniau neu bolisiau iaith Gymraeg<br/> (iii) Nifer y cyrff y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â safonau yn ymwneud â'r Gymraeg</p> | <p>Adroddiadau Blynyddol ar Gynlluniau Iaith Gymraeg</p> <p>Adroddiadau Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar weithredu Safonau'r Gymraeg</p> <p>Adroddiadau Blynyddol ac Adroddiadau Pum Mlynedd Comisiynydd y Gymraeg [yr Adroddiad Pum Mlynedd cyntaf i'w gyhoeddi yn 2015]</p> <p>Astudiaethau achos a dadansoddiadau o grwpiau penodol a defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys tystiolaeth ansoddol, dadansoddiadau o gynnwys a disgwrs ac astudiaethau ethnograffeg</p> | <p>Bod strategaeth gyfathrebu i'w chael ar gyfer codi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg</p> <p>Bod galw ymhlith defnyddwyr am wasanaethau Cymraeg</p> <p>Bod gan ddefnyddwyr gwasanaethau y gallu a'r hyder ieithyddol i greu galw am wasanaethau Cymraeg</p> |
| <p><b>Gweithgareddau/Ailbynnau:</b><br/> Gweithredu Safonau'r Gymraeg [Mesur y Gymraeg 2011]; cynyddu capasiti sgiliau i gyflenwi gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg [Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg]; codi</p>  | <p>Tystiolaeth o roi prosiectau ac ymyriadau penodol ar waith i gynyddu'r gwasanaethau Cymraeg sydd i'w cael yn ogystal â'r defnydd a wneir ohonynt</p>  | <p>Adroddiadau Blynyddol ar Gynlluniau Iaith Gymraeg</p> <p>Adroddiadau Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar weithredu Safonau'r Gymraeg</p>  | <p>Gweithredu Mesur y Gymraeg 2011</p>  |

|  |  |  |  |
|--|--|--|--|
| <p>ymwybyddiaeth o fodolaeth gwasanaethau Cymraeg; cymorth ac arweiniad rhagweithiol i gefnogi darparwyr gwasanaethau i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg</p> |  | <p>Adroddiadau Blynyddol ac Adroddiadau Pum Mlynedd Comisiynydd y Gymraeg [yr Adroddiad Pum Mlynedd cyntaf i'w gyhoeddi yn 2015]</p> |  |
|--|--|--|--|

## **Maes Strategol 5: Gwasanaethau Cymraeg**

### **Cwestiynau, Dulliau ac Offerynnau Ymchwil**

#### **Y Prif Gwestiynau Ymchwil:**

- A oes gan ddarparwyr gwasanaethau ddealltwriaeth gywir a manwl o'r hyn y mae'r cyhoedd yn dymuno ei gael wedi ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Beth yw'r ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau defnyddwyr gwasanaethau o ran defnyddio gwasanaethau Cymraeg?
- A yw darpariaeth gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynllunio a'i chyflenwi'n rheolaidd drwy fecanweithiau comisiynu a chaffael?
- A yw datblygu Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg 2011 yn sbarduno newid o ran cyflenwi gwasanaethau cyfrwng Cymraeg?

#### **Themâu:**

- Sgiliau a hyder yn y Gymraeg
- Ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg sydd i'w cael
- Safonau'r Gymraeg

#### **Cwestiynau Ymchwil Penodol:**

- A yw gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi ar sail dealltwriaeth fanwl o flaenoriaethau defnyddwyr gwasanaethau?
- A yw gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi ar sail y galw?
- A oes meysydd neu gategoriâu o wasanaethau penodol lle y mae angen i'r ddarpariaeth yn ôl y galw gael ei hategu gan fentrau i greu galw?
- A yw'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei chynllunio'n strategol i fodloni'r galw?
- Beth yw effaith Mesur y Gymraeg 2011 ar gyflenwi'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector preifat?
- Sut ac i ba raddau y mae'r gallu i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn llywio polisiâu'r dyfodol o ran addysg a hyfforddiant?
- Sut y mae gweithwyr a chyflogwyr yn dehongli'r cysylltiad rhwng defnyddio'r Gymraeg fel iaith gwaith a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg?

#### **Methodoleg / Heriau / Problemau a Ragwelir:**

Fel gyda Maes Strategol 6, mae'r Maes Strategol hwn yn cwmpasu sbectrwm eang o feysydd ac ymyriadau sydd yn cael effaith ar y rhan fwyaf o agweddau ar fywydau siaradwyr. Bydd angen i'r gwerthusiad ystyried y cysylltiad rhwng

darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gwaith (Maes Strategol 4). Bydd Adroddiadau Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar Safonau'r Gymraeg yn ffynhonnell dystiolaeth allweddol.

### **Dulliau / Offerynnau Ymchwil:**

Bydd y gwerthuso yn cynnwys cyfuniad o:

**Cyfuniadau o ddata eilaidd:** y Cyfrifiad; yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth; Arolwg Cenedlaethol; Arolwg Agweddau Cyflogwyr; Arolwg Sgiliau Cyflogwyr; Prosiect Gwybodaeth y Farchnad Lafur a Phrosiect Anghenion Sgiliau yn y Gymraeg (Gwybodaeth am y Farchnad Lafur); Adroddiadau Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar Safonau'r Gymraeg.

**Astudiaethau achos** yn canolbwyntio ar brofiadau ieithyddol grwpiau penodol o ddefnyddwyr gwasanaethau

### **Arolygon o Fuddiolwyr**

*Dangosyddion:*

*Dangosyddion Strategaeth y Gymraeg:* Y defnydd o wahanol wasanaethau a ddarperir yn Gymraeg; Nifer y cynlluniau neu bolisiau iaith Gymraeg; Nifer y cyrff y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â safonau yn ymwneud â'r Gymraeg.



## 15 Maes Strategol 6: Seilwaith

### Model Rhesymeg

| Strwythur y Prosiect   | Dangosyddion Cyflawniad   | Dulliau Gwirio   | Risgiau a Rhagdybiaethau  |
|--|---|--|---|
| <p><b>Nod:</b><br/>Bod mwy o adnoddau ac arfau ar gael i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys o fewn yr amgylchedd digidol</p> | <p><i>Dangosyddion Strategaeth y Gymraeg:</i><br/>(i) Nifer y llyfrau Cymraeg, e-lyfrau a chylchgronau (heb gynnwys addysg) a werthir<br/>(ii) Y nifer sy'n darllen <i>Golwg 360</i><br/>(iii) Ffigyrau dosbarthu ar gyfer <i>papurau bro</i> a ariennir gan Lywodraeth Cymru<br/>(iv) Ffigyrau gwylio a gwrando ar gyfer S4C a Radio Cymru<br/>(v) Pa mor gyffredin yw gwefannau poblogaidd sydd wedi datblygu rhyngwynebau Cymraeg<br/>(vi) Pa mor gyffredin yw banciau, cwmnïau ffonau symudol ac eraill sy'n darparu rhyngwynebau Cymraeg</p> | <p>Cyngor Llyfrau Cymru: gwybodaeth a gesglir yn flynyddol am nifer y llyfrau, e-lyfrau a chylchgronau Cymraeg a werthir.</p> <p>Y nifer sy'n darllen <i>Golwg 360</i> – ymweliadau dyddiol ac ymweliadau â thudalennau (yn fisol ac yn flynyddol)</p> <p>Data Llywodraeth Cymru (ffigyrau dosbarthu ar gyfer <i>papurau bro</i> a ariennir gan Lywodraeth Cymru) (Blynyddol)</p> <p>Adroddiadau Blynyddol S4C</p> <p>Radio Joint Audience Research (RAJAR) (ffigyrau gwrando ar gyfer Radio Cymru)</p> <p>Sylwebaeth ansoddol ar ddatblygu rhyngwynebau Cymraeg (gwefannau, banciau, cwmnïau ffonau symudol, ac eraill sy'n darparu rhyngwynebau Cymraeg)</p> <p>Adroddiadau Blynyddol ar Gynlluniau Iaith Gymraeg (y proffesiwn cyfieithu a chyfieithu ar y pryd)</p> <p>Adroddiadau Blynyddol i</p> | <p>Bod dealltwriaeth gyffredin o faint o gynnydd sydd ei angen er mwyn sicrhau newid (hynny yw, beth a olygir gan 'mwy')</p> <p>Bod Strategaeth Gyfathrebu gydynol ac effeithiol yn ei lle</p> <p>Bod seilwaith addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn cynnig cyfleoedd a gweithdrefnau cefnogi i ddatblygu sgiliau Cymraeg mewn meysydd lle y mae angen arbenigedd [gweithredu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yn effeithiol]</p> |

|  |   |  |   |
|--|---|--|---|
|  |   | <p>Gomisiynydd y Gymraeg ar weithredu Safonau'r Gymraeg (y proffesiwn cyfieithu a chyfieithu ar y pryd)</p> <p>Adroddiadau Blynyddol ac Adroddiadau Pum Mlynedd Comisiynydd y Gymraeg (y proffesiwn cyfieithu a chyfieithu ar y pryd)</p>  |   |
| <p><b>Diben:</b><br/>Galluogi defnyddwyr Cymraeg eu hiaith i gymryd rhan mewn ystod lawnach o swyddogaethau yng nghyd-destun hamdden, addysg, ac yn y gweithle, drwy gyfrwng y Gymraeg</p> <p>Normaleiddio'r Gymraeg ym maes technoleg a'r cyfryngau digidol</p> <p>Darparu gweithdrefnau cefnogi ac offer sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn ddewis ymarferol i ddefnyddwyr Codi ymwybyddiaeth o fuddiannau meddu ar sgiliau Cymraeg</p> | <p><i>Dangosyddion Strategaeth y Gymraeg:</i></p> <p>(i) Nifer y llyfrau Cymraeg, e-lyfrau a chylchgronau (heb gynnwys addysg) a werthir</p> <p>(ii) Y nifer sy'n darllen <i>Golwg 360</i></p> <p>(iii) Ffigyrau dosbarthu ar gyfer <i>papurau bro</i> a ariennir gan Lywodraeth Cymru</p> <p>(iv) Ffigyrau gwylio a gwrando ar gyfer S4C a Radio Cymru</p> <p>(v) Pa mor gyffredin yw gwefannau poblogaidd sydd wedi datblygu rhyngwynebau Cymraeg</p> <p>(vi) Pa mor gyffredin yw banciau, cwmnïau ffonau symudol ac eraill sy'n darparu rhyngwynebau Cymraeg</p> | <p>Cyngor Llyfrau Cymru: gwybodaeth a gesglir yn flynyddol am nifer y llyfrau, e-lyfrau a chylchgronau Cymraeg a werthir</p> <p>Y nifer sy'n darllen <i>Golwg 360</i> – ymweliadau dyddiol ac ymweliadau â thudalennau (yn fisol ac yn flynyddol)</p> <p>Data Llywodraeth Cymru (ffigyrau dosbarthu ar gyfer <i>papurau bro</i> a ariennir gan Lywodraeth Cymru) (Blynyddol)</p> <p>Adroddiadau Blynyddol S4C</p> <p>Radio Joint Audience Research (RAJAR) (ffigyrau gwrando ar gyfer Radio Cymru)</p> <p>Sylwebaeth ansoddol ar ddatblygu rhyngwynebau Cymraeg (gwefannau, banciau, cwmnïau ffonau symudol, ac eraill sy'n darparu rhyngwynebau Cymraeg)</p> <p>Adroddiadau Blynyddol ar Gynlluniau</p> | <p>Bod mentrau a dargedwyd yn benodol at ddatblygu seilwaith yr iaith Gymraeg yn cael eu cyflwyno mewn amgylchedd ieithyddol ehangach, sy'n golygu bod cynifer o gyfleoedd â phosibl i ddod i gysylltiad â'r Gymraeg, ac sy'n hyrwyddo'r broses o normaleiddio ieithyddol</p> |

|  |  |  |  |
|--|--|--|--|
|  |  | <p>laith Gymraeg (y proffesiwn cyfieithu a chyfieithu ar y pryd)</p> <p>Adroddiadau Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar weithredu Safonau'r Gymraeg (y proffesiwn cyfieithu a chyfieithu ar y pryd)</p> <p>Adroddiadau Blynyddol ac Adroddiadau Pum Mlynedd Comisiynydd y Gymraeg (y proffesiwn cyfieithu a chyfieithu ar y pryd)</p> <p>Astudiaethau achos a dadansoddiadau o grwpiau penodol, defnyddwyr gwasanaethau a defnyddwyr darpariaeth y cyfryngau, darpariaeth hamdden a diwylliannol, gan gynnwys tystiolaeth ansoddol, dadansoddiadau o gynnwys a disgwrs ac astudiaethau ethnograffeg</p> |  |
| <p><b>Canlyniadau:</b><br/>Mynediad at dechnoleg a gwasanaethau digidol drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan annatod o weithgarwch hamdden, addysg a'r gweithle</p> <p>Mwy o wasanaethau ar-lein, cymwysiadau a rhyngwynebau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler hefyd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Amcan Strategol 5, AS5.3)</p> | <p>Data ar y cyfryngau, cymwysiadau ac adnoddau Cymraeg sydd i'w cael, a'r defnydd a wneir ohonynt</p> | <p>Cyngor Llyfrau Cymru: gwybodaeth a gesglir yn flynyddol am nifer y llyfrau, e-lyfrau a chylchgronau Cymraeg a werthir.</p> <p>Y nifer sy'n darllen <i>Golwg 360</i> – ymweliadau dyddiol ac ymweliadau â thudalennau (yn fisol ac yn flynyddol)</p> <p>Data Llywodraeth Cymru (ffigyrâu dosbarthu ar gyfer <i>papurau bro</i> a ariennir gan y Llywodraeth) (Blynyddol)</p>   | <p>Bod gan siaradwyr Cymraeg y gallu a'r hyder ieithyddol i greu galw</p> <p>Bod siaradwyr Cymraeg yn gryf eu cymhelliant a dymuniad i ddefnyddio gwasanaethau, adnoddau a chymwysiadau Cymraeg</p> <p>Bod trefniadau yn eu lle ar gyfer cyfathrebu a marchnata mewn modd cydgysylltiedig i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg</p> |

|  |  |  |  |
|--|--|--|--|
| <p>Amrywiaeth eang o adnoddau addysg Cymraeg i gefnogi profiadau dysgwyr (gweler hefyd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Amcan Strategol 5, AS5.4)</p> <p>Partneriaethau creadigol rhwng darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gweithgarwch ieithyddol o fewn y gymuned</p> <p>Mesurau strategol a chreadigol i gynyddu'r deunyddiau darllen sydd i'w cael drwy gyfrwng y Gymraeg</p> <p>Mynediad at ffynhonnell gynhwysfawr o derminoleg i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd cyhoeddus, yn y gweithle ac mewn meysydd arbenigol</p> <p>Gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd o safon uchel gyson</p> <p>Dulliau deinamig a chreadigol o gyfieithu a chyfieithu ar y pryd, i ymateb i anghenion ieithyddol newidiol y gweithle</p> <p>Casglu data ar y Gymraeg mewn ffordd gydlynol a datblygu dangosyddion ar gyfer y defnydd a wneir o'r Gymraeg</p> <p>Cysylltiadau partneriaeth cynhyrchiol â phartneriaid ac asiantaethau cynllunio iaith, yn genedlaethol ac yn</p> |  | <p>Adroddiadau Blynyddol S4C</p> <p>Radio Joint Audience Research (RAJAR) (ffigyrau gwranddo ar gyfer Radio Cymru)</p> <p>Sylwebaeth ansoddol ar ddatblygu rhyngwynebau Cymraeg (gwefannau, banciau, cwmnïau ffonau symudol, ac eraill sy'n darparu rhyngwynebau Cymraeg)</p> <p>Adroddiadau Blynyddol ar Gynlluniau Iaith Gymraeg (y proffesiwn cyfieithu a chyfieithu ar y pryd)</p> <p>Adroddiadau Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar weithredu Safonau'r Gymraeg (y proffesiwn cyfieithu a chyfieithu ar y pryd)</p> <p>Adroddiadau Blynyddol ac Adroddiadau Pum Mlynedd Comisiynydd y Gymraeg (y proffesiwn cyfieithu a chyfieithu ar y pryd)</p> <p>Astudiaethau achos a dadansoddiadau o grwpiau penodol, defnyddwyr gwasanaethau a defnyddwyr cyfryngau, darpariaeth hamdden a diwylliannol, gan gynnwys tystiolaeth ansoddol, dadansoddiadau o gynnwys a disgwrs ac astudiaethau ethnograffeg</p> |  |
|--|--|--|--|

|  |   |  |  |
|--|---|--|--|
| <p>rhyngwladol</p> <p>Gwybodaeth, canllawiau a chyngor cyson a chynhwysfawr ar faterion sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg</p>  |   |  |  |
| <p><b>Gweithgareddau/Allbynnau:</b><br/>Parhau i ddatblygu gwasanaethau digidol a chymwysiadau Cymraeg; cynyddu hyder a pharodrwydd siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio gwasanaethau a chymwysiadau Cymraeg; sicrhau bod mwy o ddeunydd darllen ar gael yn y Gymraeg; datblygiad proffesiynol y proffesiwn cyfieithu a chyfieithu ar y pryd</p> | <p>Tystiolaeth o roi prosiectau ac ymyriadau penodol ar waith i gynyddu'r gwasanaethau Cymraeg sydd i'w cael yn ogystal â'r defnydd a wneir ohonynt</p> | <p>Cyngor Llyfrau Cymru: gwybodaeth a gesglir yn flynyddol am nifer y llyfrau, e-lyfrau a chylchgronau Cymraeg a werthir</p> <p>Y nifer sy'n darllen <i>Go!wg 360</i> – ymweliadau dyddiol ac ymweliadau â thudalennau (yn fisol ac yn flynyddol)</p> <p>Data Llywodraeth Cymru (ffigyrâu dosbarthu ar gyfer <i>papurau bro</i> a ariennir gan y Llywodraeth) (Blynyddol)</p> <p>Adroddiadau Blynyddol S4C</p> <p>Radio Joint Audience Research (RAJAR) (ffigyrâu gwranddo ar gyfer Radio Cymru)</p> <p>Sylwebaeth ansoddol ar ddatblygu rhyngwynebau Cymraeg (gwefannau, banciau, cwmnïau ffonau symudol, ac eraill sy'n darparu rhyngwynebau Cymraeg)</p> <p>Adroddiadau Blynyddol ar Gynlluniau Iaith Gymraeg (y proffesiwn cyfieithu a chyfieithu ar y pryd)</p> <p>Adroddiadau Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar</p> | <p>Bod cefnogaeth barhaus i'w chael ar gyfer datblygu seilwaith</p> <p>Gweithredu Mesur y Gymraeg 2011</p> |

|  |  |  |  |
|--|--|--|--|
|  |  | <p>weithredu Safonau'r Gymraeg (y proffesiwn cyfieithu a chyfieithu ar y pryd)</p> <p>Adroddiadau Blynyddol ac Adroddiadau Pum Mlynedd Comisiynydd y Gymraeg (y proffesiwn cyfieithu a chyfieithu ar y pryd)</p> |  |
|--|--|--|--|

## Maes Strategol 6: Seilwaith

### Cwestiynau, Dulliau ac Offerynnau Ymchwil

#### Y Prif Gwestiynau Ymchwil:

- A yw'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau digidol, rhyngwynebau a chymwysiadau Cymraeg yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial?
- I ba raddau y mae'r cyfryngau digidol yn creu ac yn cynnal cymunedau iaith bywiog? (*Gweler hefyd Amcan Strategol 3*)
- A yw darparwyr y gwasanaethau digidol Cymraeg a darlledwyr y gwasanaethau cyhoeddus yn bodloni anghenion siaradwyr Cymraeg wrth iddynt ddatblygu o fod yn blant i fod yn bobl ifanc ac yna'n oedolion?
- A yw'r proffesiwn cyfieithu a chyfieithu ar y pryd yng Nghymru yn ymateb yn llwyddiannus i anghenion ieithyddol newidiol gweithleoedd a chylchoedd cyhoeddus yng Nghymru?
- A yw'r dulliau cyfathrebu a marchnata a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid ar hyn o bryd yn darparu'r lefel angenrheidiol o wybodaeth, cefnogaeth a chynghori?
- A yw dulliau o gasglu a dadansoddi data yn cael eu cydlynu'n ddigonol i hwyluso dealltwriaeth fanwl o ymddygiad ieithyddol o ran y Gymraeg, gan osgoi dyblygu gwaith?
- A yw strategaethau marchnata a chyfathrebu rhwng partneriaid yn cael eu cydlynu'n strategol?

#### Themâu:

- Technoleg a chynllunio corpws yr iaith
- Cymunedau iaith yn y rhithfyd
- Cyfathrebu a Marchnata
- Strwythurau canllaw a chynghori
- Gweithgarwch Ymchwil Cynllunio Ieithyddol

#### Cwestiynau Ymchwil Penodol:

- Beth yw'r ffactorau sy'n dylanwadu ar barodrwydd unigolyn i ddefnyddio cymwysiadau digidol Cymraeg?
- I ba raddau y mae'r defnydd o ryngwynebau a chymwysiadau Cymraeg wedi'u sefydlu mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion yng Nghymru?
- A yw technoleg yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial i ymestyn y dysgu a'r datblygiad mewn sefydliadau addysgol?
- Faint o bwys sy'n cael ei rhoi ar ddeunyddiau Cymraeg ym mhatrymau darllen amrywiol deipolegau o ddarllenwyr, a pha strategaethau sydd eu hangen i annog darllenwyr i'w defnyddio? (*i'w hystyried: cyfansoddiad iaith a phatrymau ymddygiad ieithyddol y teulu; rhuglder a hyder y rhieni a'r teulu estynedig; ymwybyddiaeth o'r deunyddiau sydd ar gael a mynediad atynt; partneriaethau rhwng y cartref a'r ysgol*)

- A ydy strategaethau marchnata yn cyrraedd y cynulleidfaoedd arfaethedig?

### **Methodoleg / Heriau / Problemau a Ragwelir:**

Mae Maes Strategol 6 yn cwmpasu ystod eang o adnoddau, mewnbynnau a mecanweithiau sy'n cael effaith ar brofiadau ieithyddol siaradwyr mewn amrywiol ffyrdd. Bydd y chwe Dangosydd a enwyd yn darparu data meintiol ar y nifer sy'n dewis defnyddio'r iaith a'r defnydd a wneir ohoni. Bydd rhai agweddau ar y Maes Strategol yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiadau sy'n benodol i thema neu gyd-destun. Bydd angen ystyried hefyd y gwerthusiadau a'r ymchwil a gynhaliwyd mewn rhai meysydd gan bartneriaid [S4C, BBC a Llywodraeth Cymru: *Prosiect Ymchwil Defnydd Iaith Siaradwyr Cymraeg*; Comisiynydd y Gymraeg: *Adolygiad o'r dulliau o achredu a rheoleiddio'r proffesiwn cyfieithu Cymraeg/Saesneg*].

### **Dulliau / Offerynnau Ymchwil:**

***Astudiaethau achos*** o batrymau ieithyddol grwpiau a nodwyd (er enghraifft, teuluoedd â phlant oedran cyn-ysgol; rhwydweithiau cymdeithasol pobl ifanc)

### ***Arolygon Hydredol a Buddiolwyr***

#### *Dangosyddion:*

*Dangosyddion Strategaeth y Gymraeg*: Nifer y llyfrau Cymraeg, e-lyfrau a chylchgronau (heb gynnwys addysg) a werthir; Y nifer sy'n darllen *Golwg 360*; Ffigyrau dosbarthu ar gyfer y *papurau bro*; Ffigyrau gwyllo a gwranddo ar gyfer S4C a Radio Cymru; Pa mor gyffredin yw gwefannau poblogaidd sydd wedi datblygu rhyngwynebau Cymraeg; Pa mor gyffredin yw banciau, cwmnïau ffonau symudol ac eraill sy'n darparu rhyngwynebau Cymraeg.



## **Atodiad 1**

### **Grantiau Llywodraeth Cymru i gefnogi'r Gymraeg (2013-14)**

#### **Mentrau Iaith**

Menter Abertawe  
Menter Bro Ogwr  
Menter Brycheiniog  
Menter Caerdydd  
Menter Iaith Caerffili  
Menter Castell Nedd Port Talbot  
CERED  
Menter Iaith Conwy  
Menter Dinbych  
Menter Iaith Sir y Fflint  
Menter Iaith Maelor  
Menter Maldwyn  
Menter Merthyr Tudful  
Menter Môn  
Menter Iaith Dinefwr  
Menter Cwm Gwendraeth Cyf  
Menter Gorllewin Sir Gâr  
Menter Iaith Sir Benfro  
Menter Iaith Rhondda Cynon Taf  
Menter Iaith Blaenau Gwent  
Menter Iaith Casnewydd  
Mentrau Iaith Cymru  
Merched y Wawr  
Cymdeithas Eisteddfodau Cymru  
Eisteddfod Genedlaethol Cymru  
Cynllun Hybu Ardal Aman Tawe  
Hunaniaith  
Gwobr Dug Caeredin  
Papurau Bro  
Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru  
Y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig  
Urdd Gobaith Cymru  
Gwallgofiaid  
Dyffryn Nantlle 2020  
Plant yng Nghymru

### **Prosiectau a Chontractau Llywodraeth Cymru i gefnogi'r Gymraeg (2012-13)**

Cynlluniau Gweithredu Iaith  
Cynllun Hybu Ardal Aman Tawe  
Twf  
Bounty  
Mae dy Gymraeg di'n Grêt  
Cerdd Cymunedol Cymru  
Prosiect Cefnogi Arferion Iaith Pobl Ifanc

## Llyfryddiaeth

*Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1999) Y Gymraeg – Gweledigaeth a Chenhadaeth.*

*Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2008) Arolygon o'r Defnydd o'r Gymraeg 2004-06.*

*Cynnal Cymru (2012) Narratives for a Sustainable Wales: Values, language and identity.*

Darquennes, Jeroen (2007) 'Paths to Language Revitalization', *Contact Linguistics and Language Minorities* [Plurilingua], Cyfrol XXX, t. 61-76.

Fishman, J.A. (1991) *Reversing language shift*. Clevedon, Lloegr: Multilingual Matters.

Fishman, J.A. (2001). From Theory to Practice (and Vice Versa): Review, Reconsideration and Reiteration. Yn J.A. Fishman (gol.), *Can Threatened Languages be Saved? Reversing Language Shift, Revisited: A 21st Century Perspective* (t. 451-483). Clevedon, Lloegr: Multilingual Matters.

Grin, F. and T. Moring (2002) *Support for Minority Languages in Europe*. Adroddiad ar gyfer Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Addysg a Diwylliant, y Comisiwn Ewropeaidd.

<http://europa.eu.int/comm/education/policies/lang/languages/langmin/files/support.pdf>

Llywodraeth Cymru (2010a) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg*.

Llywodraeth Cymru (2010b) *Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig ar gyfer y Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg*.

Llywodraeth Cymru (2011) *Rhaglen Lywodraethu 2011-16*.

Llywodraeth Cymru (2012a) *Iaith Fyw: Iaith Byw: Strategaeth y Gymraeg 2012-17*.

Llywodraeth Cymru (2012b) *Adolygiad o'r Dystiolaeth mewn perthynas â'r Strategaeth ar gyfer y Gymraeg*.

Statistics Canada [www.statcan.gc.ca](http://www.statcan.gc.ca) Public Service Employee Survey (PSES).

Strubell, Miquel (2001) Catalan A Decade Later, yn Fishman, J.A. (gol.), *Can Threatened Languages be Saved? Reversing Language Shift, Revisited: A 21st Century Perspective* (t.260-283). Clevedon, Lloegr: Multilingual Matters.

Trysorlys EM (2011) *The Magenta Book: Guidance for evaluation*.

Williams, Colin H. (2008) *Linguistic Minorities in Democratic Context*, Basingstoke ac Efrog Newydd: Palgrave Macmillan.